ECO'R WYDDFA

Rhif 132 NADOLIG 1987 • IONAWR 1988 Pris 20c

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BOB UN OHONOCH

CROESO NANT A DIOLCH AMRANWEN

Cofiwch mai Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt yw Golygydd Newyddion Pentrefi yr Eco o hyn allan. Wrth groesawu Nant atom, ffarweliwn ag Amranwen gan ddiolch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr. Ein dymuniadau gorau i'r ddwy.

TREFNYDD PLYGU'R ECO

Rydym wirioneddol angen trefnydd plygu'r papur. Da chi, cysylltwch ag unrhyw un o weithwyr yr Eco.

TRADDODIAD

– YN PARHAU YN YSGOL BRYNREFAIL

Unwaith yn rhagor, merch yw enillydd cadair Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Dyma Meinir Dauncey Williams o Fethel ac o dŷ Eryri yn arddangos y tlws a enillodd am ysgrifennu stori fer ar y testun 'Euogrwydd'.

Mae Meinir yn parhau'r traddodiad o ferched yn ennill y brif wobr. Emyr Llewelyn Griffith o Ddeiniolen oedd y bachgen olaf i'w hennill ac roedd hynny yn agos i naw mlynedd yn ôl.

Gellwch ddarllen y stori fer fuddugol ar dudalen 21 ac mae canlyniadau'r eisteddfod yn llawn a lluniau ar dudalennau 14 ac 18.

– YN AIL GYCHWYN YN NINORWIG?

Llun hanesyddol : To ifanc Dinorwig a fy'n cystadlu yn Eisteddfod gyntaf (iddynt hwy) y pentref. A braf eu gweld. Pwy o'n darllenwyr sy'n cofio gweld llun cymaint o blant Dinorwig gyda'i gilydd ar dudalennau'r Eco o'r blaen?

BYTHOLWYRDD

Tybed a yw'r traddodiad eisteddfodol ar fin ail-gychwyn yn Ninorwig? Yn ôl amryw o'r pentrefwyr cafwyd 'Noson i'w chofio', nos Fawrth, Rhagfyr 1af pan gynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf yn y pentref ers blynyddoedd lawer.

Yn ôl y trefnwyr ni ddychmygodd neb y fath ymateb ag a gafwyd. Roedd y ganolfan yn orlawn cyn bod y gystadleuaeth gyntaf wedi ei chyhoeddi o'r llwyfan a phawb o bob oed yn edrych ymlaen yn eiddgar am noson i'w chofio. Ac ni chawsant eu siomi.

"'Roedd hi'n braf," meddai ein gohebydd, "i weld yr holl bentrefwyr wedi dod at ei gilydd fel un teulu mawr a chalondid o'r mwyaf oedd gweld rhai o'r cyfeillion sydd yn brysur ddysgu ein hiaith yn ymuno yn llawn yn yr hwyl ac yn mwynhau bob munud wrth wneud hynny. Rhaid peidio ag anghofio am gefnogaeth ein ffrindiau o Ddeiniolen."

Y canlyniadau'n llawn a rhagor o luniau ar dudalen newyddion Dinorwig.

ECO'R WYDDFA

RHIF 132
NADOLIG IONAWR

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL: Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug. (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI: Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhythallt (870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug. (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: Jonn Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-drudion, Nant Peris. (871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU IONAWR 28
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH IONAWR 19
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

PRAWF IECHYD I DDYNION

Annwyl Syr,

Ar Ionawr 4ydd, byddwn yn cychwyn menter newydd ym mro'r Eco, gan gynnig Prawf Iechyd i ddynion. Mae yna amryw o drefniadau a dosbarthiadau yn bod ac wedi bod ar gyfer merched i'w helpu gadw'n iach ymhob math o ffyrdd ond ychydig iawn sydd yn cael ei gynnig ar gyfer dynion.

Ym mis Gorffennaf, fe gynhaliwyd Ffair Iechyd Iwyddiannus iawn yn Oriel Eryri ac roeddem wedi synnu cymaint o ddynion a ddangosodd ddiddordeb. Roedd yn amlwg nad oedd y mwyafrif erioed wedi cael y cyfle i drafod cyflwr eu hiechyd o'r blaen, onibai eu bod wedi cael rheswm i ymweld â'u meddyg teulu.

Dengys adroddiad diweddar Curiad Calon Cymru "Pyls Gwynedd" fod cysylltiad agos rhwng iechyd a ffordd o fyw ac os meddyliwn ni am ein cyrff fel peiriannau, er enghraifft, sut driniaeth ydym ni yn debyg o roi i ni ein hunain? Gallwn wneud cymaint ar lefel bersonol i atal problemau iechyd yn y dyfodol, yn enwedig Clefyd y Galon. Yn y grŵp oedran 55-64 mae un dyn o bob deg wedi cael trawiad ar y galon, ac un dyn o bob wyth wedi sôn am symptomau Angina yng Ngwynedd.

Dyma felly y rhesymau pam y teimlwn ni fod angen y gwasanaeth yma i ddynion. Math o Glinic Dylion Holliach fydd o. Bydd cyfle i gael mesur pwysedd gwaed; mesur lefel carbon monocsid yn yr anadl; trafod cyflwr pwysau'r corff a deiet; trafod arferion ysmygu ac yfed; profi'r dŵr (urine) a phrofi lefel siwgr yn y gwaed hefyd os bydd angen.

Cynhelir y Clinic unwaith yn y mis i ddechrau, ar nos Lun cyntaf bob mis o 6-8pm yng Nghlinic Llanberis. Does dim angen apwyntiad a does dim gwahaniaeth pwy yw'r meddyg teuluol — mae hwn yn agored i bawb.

Yr eiddoch yn gywir,
Ceri Pierce, Ymwelydd Iechyd
a Tom Jones, Nyrs Gymuned
Y Ganolfan Iechyd,
Llanberis.

Y FFORDD YMLAEN

Annwyl Olygydd,

Y dydd cyntaf o Ragfyr 1987, cynhaliwyd Eisteddfod gyntaf ers llawer o flynyddoedd yng Nghanolfan Dinorwig. Roedd elw'r Eisteddfod tuag at gronfa'r Urdd yn Nyffryn Nantlle. Cawsom wledd yng ngwir ystyr y gair. Cystadlu brwd, cynhesrwydd yr awyrgylch, ynghyd â phaned o de a digon i'w fwyta.

Cefais fy synnu fwyaf gyda'r cystadleuwyr Seisnig sy'n dysgu'r iaith Gymraeg. Mae lle i edmygu eu brwdfrydedd yn enfawr. Maent yn ymdoddi i'r gymdeithas Gymreig yn Ninorwig. Maent yn gwneud cywilydd gwyneb i nifer fawr o Gymry di-Gymraeg, sydd wedi eu geni a'u magu yn yr ardaloedd cyfagos. Mae'r Eisteddfod wedi bod yn engraifft dda o gyd drefnu a chydweithio. Hyderaf i'r math yma o weithgaredd gynyddu mewn meysydd eraill, ac y cawn ninnau, sy'n Gymry Cymraeg, ddysgu rhai dulliau oddi wrth y dysgwyr. Ffordd ardderchog i sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg a Chymru.

Daliwch ati yn Ninorwig!

J.Ll. Williams
Pen-y-golwg,
Deiniolen.

MEDAL SYR T.H. PARRY-WILLIAMS 1988

Annwyl Olygydd,

Ym mis Awst 1975 sefydlwyd cronfa i goffau cyfraniad gwerthfawr Syr Thomas Parry-Williams i weithgareddau'r Eisteddfod Genedlaethol. Gweinyddir y Gronfa gan Ymddiriedolaeth Syr Thomas Parry-Williams, sydd wedi ei chofrestru'n swyddogol.

Prif amcan yr Ymddiriedolaeth yw meithrin a hybu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ymhlith pobl ifainc, yn arbennig trwy weithgareddau sy'n hyrwyddo dibenion yr Eisteddfod Genedlaethol.

Rhoddir Medal Syr Thomas Parry-Williams — Er clod i gydnabod ac anrhydeddu gwasanaeth gwirfoddol a nodedig a gyflawnwyd dros nifer helaeth o flynyddoedd ymhlith pobl ifainc mewn ardal neu gymdogaeth tuag at gyrraedd amcanion yr Ymddiriedolaeth.

Dyma restr o'r rhai a dderbyniodd y fedal er 1976:
1976 Mrs L.M. Tegryn Davies, Aberteifi;
1977 Mr Ifor Owen, Llanuwchllyn
1978 Mrs Gwen Wyn Jones, Llansannan
1979 Mrs Catherine Sydney Roberts, Llanerfyl
1980 Mrs Marie James , Llangeitho
1981 Mr Emrys Jones, Llangwm
1982 Mrs Myra Rees, Casllwchwr
1983 Mrs Marged Jones, Y Bala
1984 Mr Trefor Davies, Hen Golwyn
1985 Mr Edward Williams, Llangefni
1986 Mrs Lucy Annie Thomas, Brynaman
1987 Mr Gwilym Roberts, Caerdydd.

Gwahoddir enwebiadau yn awr ar gyfer medal 1988 ac y mae ffurflenni enwebu i'w cael oddi wrth Y Cyfarwyddwr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 10 Park Grove, CAERDYDD CF13BN (Tel. 0222 394120) a dylid eu dychwelyd erbyn Ionawr 31ain 1988.

Yr eiddoch yn gywir, Emyr Jenkins,
Cyfarwyddwr.

A FEDRWCH CHI HELPU?

Myfyrwraig o Unol Daleithiau'r America yw Audrey Siemen. Fel rhan o'i chwrs am radd mewn gwleidyddiaeth mae'n gweithio dros dro yn Swyddfa Senedd Ewrop yn Wolverhampton.

Mae'n ceisio olrhain hanes ei theulu sydd â chysylltiadau â'r ardal hon. Dyma'r hyn ŵyr eisoes:

1. John R. Jones – wedi ei eni yn Lleyn – bu farw yn Llanrug yn 1910 tra ar ymweliad o'r America.
2. Ymfudodd i'r America wedi marwolaeth ei wraig Margaret (Evans).
3. Ganwyd mab iddynt yn Llanberis – Robert R. Jones, a aeth i America yn 16 oed.
4. Priododd â Kate Edith Williams o Fodedern.
5. Eu mab hwy Charles R. Jones a anwyd ac a fu farw yn America oedd Taid Audrey Siemen.

Os gwyddoch am hanes unrhyw berthynas i'r teulu a fyddwch cystal â chysylltu ag
Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug. Ffôn: Waunfawr 200.
Diolch yn fawr.

CWRS CEFNDIR – CYMRAEG –

Annwyl Olygydd,

Tybed a fyddai gan ddysgwyr profiadol yn eich ardal ddiddordeb mewn Cwrs Cefndir a gynhelir ym Mawrth 1988 yn Llanbedr Pont Steffan? Neu efallai bod eich darllenwyr yn nabod dysgwyr lleol sydd am wella eu gwybodaeth o'r Gymraeg a'n diwylliant.

Fe'i trefnir gan Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion yng Nghaerdydd ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn ddigon sicr eu gafael ar yr iaith lafar ac yn awr am ehangu eu gwybodaeth am Gymru a'i diwylliant yn oystal â datblygu eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn hytrach nag ar ddysgu'r iaith yn ffurfiol.

Tybed a allwn ofyn, drwy golofnau'r papur, i'ch darllenwyr dynnu sylw dysgwyr lleol at y cwrs hwn?

Os ydych am fwy o fanylion, cysylltwch â Geraint Wilson-Price, Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, 22 Heol Y Parc, Cathays, Caerdydd. (0222) 390980.

Diolch yn fawr.
Yr eiddoch yn gywir,
Geraint Wilson-Price
Coleg Prifysgol Cymru,
Caerdydd.CF1 3NS

CYMORTH I WLEDYDD Y SAHEL

Gofalaeth Unedig Deiniolen, LLanberis a Nant Peris.

Bob saith mlynedd mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn lansio apêl am arian i un o wledydd y Trydydd Byd. Eleni gwneir apêl ar ran gwledydd y Sahel, hynny yw gwledydd sydd yn ymylu ar y Sahara sef, Mauritania, Mali, Niger, Chad, Gambia Senegol a Burkina Faso, ac mae nôd wedi cael ei osod ar gyfer pob gofalaeth. Nôd yr ofalaeth uchoed oedd £1,000.

Er ceisio cyrraedd at y nôd yma, cerddodd ein Gweinidog, Y Parch Trefor Lewis o amgylch yr Wyddfa un diwrnod yn Awst gan gael aelodau'r ofalaeth i'w noddi. Trwy yr ymdrech yma casglwyd £668.00

At hyn cynhaliwyd nosweithiau coffi yn Llanberis a Deiniolen, ac i orffen yr ymdrech cynhaliwyd bore coffi yng nghartref y Parch a Mrs Lewis.

Canlyniad hyn i gyd oedd i ni gasglu a throsglwyddo £1,120.00 i'r apêl o'r ofalaeth.

Dymunwn ddiolch i bawb a gyfranodd at yr apêl, yn enwedig i'n Gweinidog a'i briod.

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
NADOLIG LLAWEN I CHWI OLL
Cewch Flwyddyn Newydd Dda ar ein Gwasanaethau Bysus Newydd

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

GWASANAETH NADOLIG: Yng Nghapel Ebenezer am 5.30pm nos Sul, Rhagfyr 20, y cynhelir y Gwasanaeth Nadolig eleni, dan nawdd y Cyngor Eglwysi. Yr Eglwysi unigol fydd yn gyfrifol am y Gwasanaeth eleni, ac er na chymrir rhan penodol gan wahanol fudiadau'r pentref, mawr hydera'r Cyngor y'i cynrychiolir yn y Gwasanaeth. Estynnir croeso cynnes i bawb, gan obeithio y llenwir y capel.

CYNGOR EGLWYSI: Yn ôl ei arfer, bydd y Parch Trefor Lewis yn gweinyddu'r Cymun Sanctaidd, yn Festri Disgwylfa am ddeg o'r gloch fore dydd Nadolig. Gwnewch ymdrech arbennig i fanteisio ar y cyfle i brofi gwir naws yr Ŵyl.

Cynhelir Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn, dan nawdd y Cyngor, yng Nghapel Libanus am saith o'r gloch nos Lun, Ionawr 1988. Bydd y Gwasanaeth yng ngofal y Parch Ifor Williams, ac estynnir croeso brwd i bawb i'r Gwasanaeth hwn hefyd.

PRIODI: Hoffa Mr Bryn Jones, Stryd Newydd a Diane Thomas, Bro Rhyddallt, Llanrug, ddiolch o galon i'r ddau deulu a ffrindiau oll am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar ddiwrnod eu priodas. Byddant yn ymgartrefu yn Stryd Caradog, Deiniolen.

DIOLCH: Dymuna teulu Mr Dei Morris, 8 Bro Deiniol ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd pan yn dathlu ei ben-blwydd yn 85 oed.

PRIODI: Yng Nghapel Cefn-y-Waun ar Dachwedd 21, priodwyd Miss Delyth Fon Williams, 12 Ffordd Deiniol a Steven Thomas, 89 Maes Padarn, Llanberis.

Yn gwasanaethu yr oedd y Parch Trefor Lewis a'r Parch Eifion Williams. Y gwas oedd Colin Thomas (brawd Steven) a'r morynion oedd Ceri Wyn Williams (chwaer Delyth) a Nia Thomas (chwaer Steven), a'r forwyn fach oedd Louise Price (cyfnither Steven).

Miss Betty Williams, Deiniolen oedd wrth yr organ a gofalwyd am y blodau gan MrsJanice Land. Roedd y wledd yng Ngwesty Victoria, Llanberis gyda disgo yn y nos.

Buont ar eu mis mêl yn y 70 Degrees, Bae Colwyn ac yna teithio i Gaerdydd. Byddant yn cartrefu ym Mro Rhos, Bethel.

Dymuna'r ddau deulu ddiolch i bawb am y llu anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant.

DIOLCH: Dymuna Menna, Ellen, Sian a'r teulu Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion oherwydd ni fyddant yn anfon cardiau eleni.

Dyma lun Tîm Pêl-droed Deiniolen tua 1952-53.

Yn sefyll o'r chwith i'r dde: G. Peris Roberts; Tom Roberts; Idris Roberts, Betws Bach; Alun Williams, Ciali; Hugh Roberts; Jackie Lewis; Arthur Owen; Gwilym Lloyd Jones; Frank Youd (taid Malcolm Allen, sydd yn chwarae i Watford a Chymru heddiw); Caradog Jones; Gwilym R Jones; Alun Wyn Evans.

Yn eistedd Trevor Ellis; R.D. Jones, Caerau; Stanley H Roberts; Hugh Jones, (Hugh Bach Coch); Gwilym Griffiths, Ema.

Diolch i Mr S H Roberts am fenthyg y llun.

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel Newydd
GWASANAETH ATEB
FFÔN 24 AWR

LLANBERIS 870545

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Seindorf leuenctid a ddaeth yn 4ydd mewn cystadleuaeth yng Nghei Cona yn ddiweddar.

Y Seindorf gyda'u harweinydd newydd, Mr Saunders.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI: Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Eisteddfod yn y Caban, ar nos Wener, 27 Tachwedd gyda'r Parch Trefor Lewis yn y Gadair. Siomedig oedd y gefnogaeth eleni eto. Serch hynny, aed ymlaen i osod seiliau diogel ar gyfer Eisteddfod Iwyddiannus arall i'w chynnal ar 28 a 29 Hydref, 1988.

Etholwyd Mr Ernest Jones, Porth y Gogledd yn Gadeirydd am y flwyddyn, gyda'r Parch Erfyl W Blainey yn Is-Gadeirydd. Penodwyd Mr John B Jones yn Is-Ysgrifennydd a Mrs Hilda Parry, Porth y Gogledd yn drefnydd Pwyllgor Lluniaeth Ysgafn. Cytunodd gweddill y swyddogion i aros yn eu swyddi am flwyddyn arall.

Yn ystod y Cyfarfod cyflwynwyd cloc llechen i'r Parch Trefor Lewis fel arwydd o werthfawrogiad cywir Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod o'i arweiniad a'i ymroddiad fel Cadeirydd yr Eisteddfod o'i chychwyn ym 1982, a dymunwyd yn dda iddo ef a'i deulu pan fyddont yn symud i'w maes newydd yn Hen Golwyn ym 1988. Mynegwyd diolch diffuant gan y Parch Trefor Lewis am y rhodd, gan ddymuno pob llwyddiant a rhwyddineb i'r Eisteddfod yn y dyfodol.

APÊL LLEOL EISTEDDFOD YR URDD, 1990: Mawr oedd clod pawb a fu'n gwrando'r Cyngerdd Mawreddog a gynhaliwyd gan Seindorf leuenctid Deiniolen, dan arweiniad Mr Dafydd Wyn Williams a Mr Hefin Goronwy Jones yn y Ganolfan ar nos Lun, 30 Tachwedd i lansio'r Apêl uchod. Cafwyd eitemau ar lafar ac ar gân yn ogystal â'r perfformiadau offerynnol o'r safon uchaf. Gallwn ymfalchio yn yr arwyddion a amlygwyd trwy'r cyflwyniadau proffesiynol yn y Cyngerdd hwn fod dyfodol y diwylliant hynaf a gysylltir â'n pentref yn gwbwl ddiogel. Edmygwn selogrwydd y bandwyr a'u hyfforddwyr, a hawdd yw eidduno llwyddiannau pellach iddynt i goroni eu hymdrechion ac i gadw enw da y Seindorf ar y brig.

Llywydd y noson oedd Mr John Clifford Jones, Ty'r Faenol, Clwt y bont gynt, a hawdd oedd talu diolch iddo yntau am ei gyfraniad sylweddol at yr Ap7el. Diolchir yn gynnes hefyd i'r cefnogwyr brwd a lanwodd y Ganolfan, a phleser yw cyhoeddi fod cychwyn rhagorol wedi'i wneud i'n hymdrech i godi £3,200 at yr Eisteddfod. Bydd cyhoeddiad yn rhifyn nesa'r Eco am ymdrechion y dyfodol.

DIOLCH: Hoffa Mr a Mrs Henry Roberts, Pentre Helen, ddiolch o galon i Mr R Williams, 19 Von Sturmer St., Mangere East, Auckland, Seland Newydd am y llythyr a gawsant ganddo pan ymddangosodd llun Mr a Mrs Roberts yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Mae Mr Williams yn wreiddiol o Ddeiniolen (Bob Cae Dicwm). Hyn gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bob a'r teulu yn Seland Newydd oddi wrth yr hogia i gyd a'i hen ffrindiau ysgol.

DIOLCH: Dymuna Gwyn ac Einir Williams, 21 Pentre Helen ddiolch i gyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

Diolch am yr holl gardiau, llythyrau ac am y rhoddion o £305 punt tuag at Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr i bawb.

Derbyniwyd y wybodaeth ganlyunol gan Miss Jennie Williams, Llangefni (gynt o Ddeiniolen), ynglŷn â'r llun a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco, llun Mrs Betty Owen, Tros yr Afon, Brynrefail.

Tynnwyd y llun yn hen ysgol Deiniolen oedd, ar un amser, yn sefyll dros y ffordd i Gapel Disgwylfa. Ni wyddai Miss Williams beth oedd yr achlysur ond roedd yn adnabod pedwar ohonynt:

Yr ail o'r dde, rhes gefn, yn sefyll: Mr William Williams, New Street, pryd hynny (Will Fawr);

Yr ail o'r chwith, rhes ganol: J.E. Parry (Emwd);

Y ferch ail o'r dde, rhes flaen: Maggie Pritchard, 6 Rhes Caradog;

Y drydedd ferch o'r chwith: Annie Ellen Williams, chwaer i Willilam Williams.

CWM-Y-GLO

Gohebyd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

CLWB IEUENCTID: Canu Carolau: Erbyn i'r nodiadau hyn weld golau dydd bydd aelodau o'r Clwb a'u rhieni wedi bod ó gmwpas y pentref yn canu carolau, gan y bydd hynny wedi bod Nos Fawrth – 15ed o Ragfyr. Bydd manylion llawn am y swm arian a gasglwyd ac at ba achos da y neilltuwyd yr arian yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Gadael enw allan: Yn y nodiadau mis diwethaf gadawyd enw Mrs Sylvia Williams yn gwbl anfwriadol wrth restru enwau rhai a fu mor barod eu cefnogaeth i'r Noson Tân Gwyllt. Felly Mrs Williams derbyniwch ein ymddiheuriad a diolchwn i chwi am eich cefnogaeth.

Yn y flwyddyn newydd: Bydd y Clwb yn ail agor eto ar Nos lau, Ionawr 7ed.

CLWB POBOL Y CWM: Wedi pnawn o adloniant Bingo dydd lau, Tachwedd 19 gyda Mrs E Price New Street yn galw, cafwyd trafodaeth ar wahoddiad y Prifathro Mr Idriswyn Roberts i'r aelodau ymuno â phlant yr ysgol mewn Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel y Tabernacl Nos lau Rhagfyr 17. Roedd pawb yn awyddus i dderbyn y gwahoddiad i roi ein cyfraniad gyda'r plant. Cydymdeimlwyd ar ran yr aelodau gan y Llywydd â Mr R.H. Parry yn ei brofedigaeth o golli ei frawd. Diolchodd i Mrs Watkins a Mrs Chick am ofalu am y te a Mrs E Hughes am y raffl. Newidiwyd cyfeiriad ein cyfarfod arferol yn y Ganolfan Dydd lau Rhagfyr 3ydd, trwy ymweld â Llandudno. Ni raid dweud mai'r siopau oedd yr adyniad mwyaf. Dychwelodd pawb yn eu hwyliau gorau er i'r boced fod dipyn yn ysgafnach. Cynhelir y cyfarfod nesaf bnawn lau, Rhagfyr 17 pryd y cawn gyfranogi o ddanteithion arferol y Nadolig ynghŷd ag adloniant ysgafn yn cynnwys eitemau amserol yr Wyl.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Mr a Mrs Leonard Parry, Hebron a Mrs J.M. Parry, Penrhosgarnedd yn eu profedigaeth o golli eu chwaer y diweddar Mrs Vera Hardane-Cottam. Roedd wedi ymgartrefu yn Llanfair P.G. ym Môn a hoffai ymweld yn gyson â theulu Hebron a mynychu gwasanaethau y Tabernacl ar ei hymweliad, y Capel lle roedd yn aelod yn y dyddiau cynnar. Gwerthfawrogwyd ei diddordeb a'i chyfraniad i'r achos.

DIOLCH: Diolch i Mrs Susan Jones, 2 Dolafon; Karen Foulkes, Caren Williams a Carys Williams am fynd o amgylch y pentref i gasglu arian at y "Poppy Appeal" – y casgliad oedd £24.54

PÊL-DROED: Chwaraeodd Cwm yn erbyn Llanrug ar y 5ed o Ragfyr ac ennill o 11 gôl i ddim. Da iawn hogia.

GWELLHAD: Dymunwn wellhad buan i Medi Jones, Bron Eryri ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

DIOLCH: Dymuna Mr J.C. Jones, 21 Dôl Afon ddiolch o galon i'w deulu a'i ffrindiau am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dychwelyd adref.

YR YSGOL GYMUNED: Cymdetihas Rhieni ac Athrawon: Cynhaliwyd noson o chwist gan y gymdeithas yn Neuadd yr Ysgol yn ddiweddar. Ymunodd nifer o rieni â'r athrawon a staff y gegin am noson hwyliog o chwarae cardiau. Trefnwyd gweithgareddau'r noson gan Mrs Hilda Orritt. Yr enillwyr oedd "Dynes" – Mrs Gwawr Morris. "Dyn" – Mrs Sandra Jones. Dwy hen law ar y gêm gafodd y sgoriau isel y tro hwn, sef Mrs Elinor Hughes a Mrs Veronica Williams!! Enillwyd y raffl gan Mrs Ifanwy Jones.

Noson o Fingo: Cynhaliwyd Bingo yn yr ysgol nos Wener 4ydd o Ragfyr a chodwyd £172.72 o bunnoedd tuag at brynu fideo i'r ysgol. Dymuna'r Pwyllgor, y Prifathro a'r staff ddiolch o galon i bawb a gefnogodd yr ymdrech drwy eu presenoldeb a'u haelioni.

Enillwyd y rafflau fel a ganlyn: Raffl Fawr: Hamper (1) – Robert Shaw, St. David's, Bwlch; Hamper (2) – Annie Hughes, Bryn; Hamper (3) – Mrs Hughes, Hyfrydle; Bag siopa – Miss Liefman, Tan Rhiw; Dol – 24 Dolafon. Gwin Riesling – Peggy Davies, Brynrefail; Gwin Mateus – Iestyn Dafydd, Rhoscefnhir; Bocs siocled – Keith Williams, Bryn; Cas gobennydd – Morris, Tangraig, Cwmyglo; Pyrsiau – Enid Price, New Street; Bisgedi – 7 Trem Eilian, Brynrefail; Bisgedi Siocled – Irfon Jones, Dyffryn; Tin Bisgedi – Mr Atkinson, Ty'n Rardd.

Raffl fewnol: Hamper Fawr – Mrs Hughes, Hyfrydle; Hamper Fach – Mark Roberts, Tanycoed; Gwin – Dora Roberts, Tanycoed; Bocs siocled – Vera Price, Tanygraig; Bath Cubes – Enid Price, New Street.

Enillwyr Enwau tu ôl i gardiau Bingo – Owain Gwyn, Ceri Roberts, Irfon Jones. Mrs Hughes Hyfrydle, Mrs Hilda Orritt, Carys Owen, Bethel.

Adran yr Urdd Penllyn: Cwis: Ymunodd Adran Bentref Penisarwaun â ni yng Nghwm-y-glo am noson ddifyr iawn yn ddiweddar. Trefnwyd cwis gwahanol iawn i'r arfer gan Mrs Carol Houston a Mrs Rhian Jones. Diolchwyd iddynt gan Carys Williams ar ran Adran Penllyn a chan Dyfed Wyn Jones ar ran Adran Penisarwaun.

Canu: Treuliwyd awr eithriadol o ddifyr yng nghwmni Edward Morus Jones. Ymunodd pawb o'r hynaf i'r ieuengaf yn y canu a'r hwyl a diflanodd yr amser yn sydyn gan gymaint y sbort a'r rhialtwch. Mae Edward yn boblogaidd iawn ymysg aelodau adran.

Parti: Bu deg ar hugain o aelodau'r adran yng Nglangwna mewn Parti Nadolig a drefnwyd gan Bwyllogr leuenctid Eisteddfod Nantlle ac Arfon 1990. Roedd hi'n noson ddifyr iawn a chafwyd llawer o hwyl y Nadolig.

Sefydlu Cronfa: Ar noson eithriadol o Stormus ddiwedd Tachwedd daeth criw ynghyd i drafod y posibilrwydd o sefydlu pwyllgor i gasglu arian tuag at Eisteddfod Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Daeth Mr Geraint Jones, cadeirydd y pwyllgor casglu arian atom i esbonio yr hyn oedd ei angen. Nod pentref Cwm-y-Glo yw £900. Etholwyd Gwyn Hefin Jones yn Drysorydd, Mrs Sylfia Williams yn Ysgrifennydd a Dafydd Idriswyn yn Gadeirydd. Penderfynwyd gwneud ymgyrch gyfamodi; os oes gan rywun ddiddordeb mewn cyfamodi dylent gysylltu â Gwyn Hefin Jones. Mae hon yn ffordd dda o godi arian gan fod modd hawlio treth incwm yn ôl oddi wrth y llywodraeth. Byddai'n rhaid i chi addunedu i dalu swm gyfartal dros bedair blynedd.

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

UNDEB Y MAMAU: Prynhawn dydd Mawrth Rhagfyr 1 yn Church House, cafwyd prynhawn o Naw Llith a Charol o dan ofal Mr Alun Hawkins a Mrs Betty Humphreys. Cymerwyd rhan gan aelodau y mudiad. Diolchwyd i Gareth Jones am ddod i chwarae yr organ i ni. Cafwyd gwledd wedyn a diolchwyd i'r gwragedd gan Mrs Vember Cheeseman ac eilwyd gan Mrs Jean Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Hawkins a'r enillydd oedd Mrs Betty Williams.

GWELLHAD: Dymunwn wellhad buan i'r rhai canlynol sydd wedi bod yn yr ysbyty: Mrs Gwynfryn Griffiths, Ty du Road; Glenys Owen, Dol Elidir; Mrs J. May Jones, Maes Padarn; Mr Gwyn Williams, Stryd Cambrian; Alwyn Owen, Stryd yr Wydd, ac i bawb sydd yn cwyno gartref. Dymunwn gyfarchion yr Wyl i chwi i gyd.

CROESO: Dymunwn yn dda i Mrs Maggie Roberts mam Mrs Mona Jones, Maes Padarn, sydd yn symud i fyw i 64 Maes Padarn o Benygroes. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

DYMUNWN yn dda i Norman a Mair a'r plant sydd yn symud i fyw i Maes Padarn. Hefyd i Christine a Melisa ar eu symudaid hwythau i Faes padarn.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mr Gwyn Williams, Rhes Cambrian a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam a nain.

Hefyd Mrs Millie Owen, Mari Wyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad sef Mr Bob Owen, Coed Mawr.

Cydymdeimlwn â Karen, Eryl, Ken K.M.P. a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mab ac ŵyr bach sef Jonathan Williams.

DYMUNIADAU DA i Stephen Thomas, Maes Padarn ar achlysur ei briodas yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Gareth P. Jones, Garfield House, Llanberis, ac Anita Axon, 8 Bro Arfon, Fron, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddïad.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn y Ganolfan ar Dachwedd 26, dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Darllenwyd yr Adroddiad Blynyddol gan yr ysgrifenyddes, ac adroddiad o'r cyfrifon gan y drysoryddes. Croesawyd Mrs Ann Noutch a dwy ffrind o Bentrefelin i arolygu y gwaith o ethol Swyddogion a phwyllgor ar gyfer 1987-88. Dyma ganlyniad yr etholiad:

Llywydd – Mrs Hannah Jones; Is-lywydd – Mrs Jan Davies; Ysgrifenyddes – Mrs Helen Morris; Trysoryddes – Mrs Glenys Jones; Pwyllgor – Mrs Jan Davies, Mrs A.M. Evans, Mrs Arfonia Evans, Mrs Mary Jackson, Mrs Dilys Phillips, Mrs Glenys Jones, Mrs Helen Morris, Mrs Dwynwen Roberts, Mrs Hannah Jones, Mrs Katie Griffith, Mrs Dilys Jones a Mrs M.E. Owen. Y gwestwragedd oedd Mrs Betty Humphreys, Mrs Jean Elis a Mrs M.E. Owen. Diolchwyd i Mrs Noutch a'i dwy ffrind, ac hefyd i'r gwestwragedd gan Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Dwynwen Roberts.

DIOLCH: Dymuna Susie Roberts, 23 Dol Eilian, ddiolch yn galonnog i bawb am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur ei phenblwydd yn bedwar ugain oed.

PLANT MEWN ANGEN: Nos Wener, Tachwedd 27ain, cynhaliwyd noson yng Ngwesty'r Prince of Wales, Llanberis o gystadlaethau Pŵl, dartiau a rafflau at y mudiad uchod. Dymunai Jean a Graham Hughes, perchnogion y gwesty ddiolch i bawb am eu cefnogaeth tuag at wneud y noson yn llwyddiannus. Gwnaed elw o £200. Dyma'r enillwyr; Raffl y Panda – C. Saynor, Maes Padarn; Pŵl – Alan Ellis, Maes Padarn (potel o wisgi); Dartiau – Benji ennill gwerth £5 o ddiod. Mae ganddynt raffl Nadolig yn mynd o amgylch nawr. Bydd yr elw yn mynd tuag at Ymgyrch y Galon, Cubs a Brownies. Bydd yn cael ei thynnu Rhagfyr 23.

LLENG BRYDEINIG: Bydd noson i'r merched yn cael ei chynnal Nos Lun Rhagfyr 21, am 7 o'r gloch. Dowch i fwynhau eich hunain gyda Pete's Disco, raffl a chwrw rhad ar y noson. Aelodau yn unig. Enillydd Raffl yr Eliffant a dynnwyd Nos Sadwrn oedd: Stephanie Welsby, 1 Glanrafon Terr, Nant Peris.

N.S.P.C.C. Dydd llun Tachwedd 30 cafwyd Pwyllgor o'r mudiad uchod. Pasiwyd i gael Noson Gwin a Chaws yng Ngwesty Dolbadarn nos lau Chwefror 4ydd. Bydd Tocynnau yn cael eu gwerthu ddechrau'r flwyddyn. Gwyliwch rifyn Ionawr o'r Eco a ffenestri siopau am fwy o fanylion.

Hoffem ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

MODURDY

London Garage

CWM-Y-GLO

Ffôn Llanberis 870234

Arbenigwyr mewn tiwnio moduron

A.A. M.O.T.

W.H. JONES

Trydanwr

Green Bank

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 871470

Contractau

Weirio Tai

Cawodydd Trydan

ac ati

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CYFARCHION NADOLIG

LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

SIOP DRIN GWALLT

Elaine Jones

Ffordd yr Orsaf

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2023

Mae Bill a Lynne

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF LLANRUG

Yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i gwsmeriaid hen a newydd.

Oriau Agor:

24 Rhagfyr 8.30–12.00, 28 Rhagfyr 10.00–4.00

Ar Gau 25, 26 a 27 Rhagfyr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BERYL a GWEN

LLYTHYRDY LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2422

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

TECWYN JONES

CAE RHOS, LLANRUG

Ymgymerwr Cludo Cyflenwr Tywod, Gro ac ati

Ffôn: Caernarfon 3547

J M JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)

Y Felinheli 670124 (nos)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB ODDI WRTH

STAFF

Mae'r beirniaid yn gytun. Car y flwyddyn yn Ewrop yw'r

PEUGEOT 405

Dewch draw i weld pam.

GAREJ HAFOD LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3372

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Lwyddiannus
i bawb oddi wrth

ELWYN HUGHES
CONTRACTOR
PENNANT
LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 2156

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll oddi wrth

R. Hughes Jones a'r Mab

SIOP GIG
BRYN AFON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3188 a 5190

Arbenigwyr ar gig i'r rhewgell

J.H. a H. JORDAN & SON

SNOWDON GARAGE
LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 3056

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth bawb yn y garej.
Gobeithio y cawn eich cefnogaeth eto ym 1988

Gwerthu ceir newydd ac ail-law
Trin cyrff - Sythu Chasis - Spreio - Unrhyw Waith Mecanyddol - Atgyweirio - MOT - Gwasanaeth Torri Lawr 24 awr

---

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

GLYN ROBERTS
A'I FAB
DYNION GLO

3 a 4 TAI HERMON, LLANRUG
Ffôn: 5043 a 2125

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH BAWB YN

Y CO-OP LLANRUG



Ffôn: CAERNARFON 2937

Mae yna bresant Nadolig i bawb o'r teulu – dillad dynion, merched a phlant, teganau, slippars, blancedi, llyfrau, carpedi, bwydydd a diodydd.

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN 1987
DYMUNIADAU GORAU AM 1988

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

JONES A PITTS

PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob math o waith metel

GWAITH BRYN AFON

LLANRUG

DIOLCHWN YN GAREDIG IAWN AM EICH CEFNOGAETH FLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN A DYMUNWN FEL TEULU NADOLIG LLAWEN I CHWI OLL A DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD

SIOP a MODURDY GROESLON MARC

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2445



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

LYNWOOD JOINERY

BRYN AFON

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 77422
Portdinorwig 670191

FFENESTRI . DRYSAU . GRISIAU
GATIAU . ARBENIGWYR
GWYDR DWBL

CYFARCHION Y TYMOR
A
DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth
NEIL, IRIS, MARGARET AC OLWEN

y Siop Sglodion

Pontrhythallt Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN A KATHLEEN WILLIAMS

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG Ffôn: 77482

Hefyd yn

TANRALLT, CWM-Y-GLO,
Ffôn: Llanberis 870793

Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau
Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed
Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara

---

DYMUNA

GWYNFA A MARGARET

PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Jennifer a Staff

Y GLYNTWROG

LLANRUG

Cewch groeso cynnes dros ein Nadolig cyntaf yn y dafarn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

TONY, BERYL a STAFF

Tafarn

PENBONT

LLANRUG

Fe rown ichi ein croeso arferol trwy gydol 1988

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

oddi wrth

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn siop

John a Roberta Grifith
Y STORFA
SGWÂR
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2790

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

David a Bernadette
JONES
SNOWDON STORES
PONTRHYTHALLT
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 4472

PAPURAU NEWYDD A BWYDYDD

CYFARCHION NADOLIG LLANRUG

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

CRIB COCH
Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 76772

Trin gwallt i bawb o'r teulu gan Jen

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

Simneau glân am bris rhesymol gan

G. LLOYD
4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG
Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau
Ffôn: Caernarfon 4781

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

SELWYN MORRIS
Adeiladwr a Threfnydd Angladdau
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2841

Merched . . .
Dynion . . .
Plant . . .

I gael trin eich gwallt yn eich cartref cysylltwch â

SIAN
MAIRANNEDD
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5366

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI GWAIR

E. PUGH
WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU OFALUS

* Gwasanaeth 7 diwnod
* O dd ws i ddrws
* Control Deuol

D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

W.J.GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi

CORGI GAS IN SAFE HANDS

Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd cyfarfod llwyddiannus o Gymdeithas Capel Mawr nos lau 20 Dachwedd, gyda Mrs J Davies yn llywyddu yn absenoldeb Miss Malan Roberts. Noson o 'Hawl i Holi' gyda Mr Iolo Huws-Roberts, Waunfawr yn Gaderiydd y Panel. Aelodau'r panel oedd Mrs Menna Williams, Llanrug, Mrs Meryl Green Pontrug, Mr Cynrig Hughes, Pentir a Mr R. Lloyd Jones, Bethel. Cafwyd y diolchiadau gan Mrs I Butler. Trefnwyd lluniaeth ysgafn gan Mrs N Roberts, Mrs B Thomas Mrs M Parry a diolchwyd am y baned gan Mrs E Williams. Y cyfarfod nesa o'r Gymdetihas fydd Gwasanaeth Carolau nos Sul 20 o Ragfyr yn Capel Mawr. Y Llywydd fydd y Parch John Morris B.D. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 5.30.

CAPEL MAWR: Bydd te parti yr Ysgol Sul ar b'nawn Llun, Rhagfyr 21 o 3 hyd 4.30 o'r gloch, a gobeithiwn weld Santa Clos yno hefyd. Hoffai'r athrawon a'r plant ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd arian a nwyddau at y te parti, a dymunant Nadolig Llawen i bawb.

PLAID CYMRU: Mwynhaodd aelodau'r gangen ginio Nadolig yng ngwesty Dolbadarn, Llanberis ar ddechrau'r mis. Rhoddwyd y raffl gan Nan Humphreys a'r enillydd oedd Dafydd Evans, Penisarwaun.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ionawr 13 yn yr Ysgol Gynradd. Disgwyliwn Dafydd Hughes o Gyngor Arfon, i roi sgwrs ar "Cynllunio yn Arfon".

Mae'r pwyllgor wedi trefnu perfformiad gan Gwmni Drama Llwyndyrus ar nos Sadwrn, Chwefror 27, 1988. Daw mwy o fanylion eto.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Harry Martin, Fair Haven, ar ddod yn nain a thaid. Ganwyd maerch fach, Sally, i'r Dr a Mrs John Martin, yn Seattle, U.D.A. Cyn bo hir byddant yn symud i fyw i San Francisco.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: "Pe meddwn i'r ddawn" oedd testun sgwrs Mr Arwel Jones, Penisarwaun i'r aelodau nos Fawrth, Rhagfyr 1af. Llywyddwyd gan Mr Emrys Owen, Hafan Elan, a thalwyd diolch i'r siaradwr gan Mr Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd.

CYDYMDEIMLIR â Mr Joseff Williams, 17 Bro Rhyddallt ar farwolaeth ei briod, Mrs Gwen Williams. Gedy dair merch, Mrs Ceri Owen, Ferndale; Mrs Buddug Hughes, Isallt a Mrs Dorothy Hughes, Llandudno, ac un mab, Mr Gwyn Williams, Llanberis.

Mae Miss Annie Parry, 14 Hafan Elan, Llanrug yn anfon cyfarchion y Nadolig i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau, a dymuno Blwyddyn Newydd Dda idynt oll.

Carai Mrs Annie Williams, Cartref y Foelas a 18 Hafan Elan, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a'i ffrindiau, a hefyd diolch i bawb a fu yn ymweld â hi yn y cartref.

PWYLLGOR APÊL YR URDD 1990: Cynhelir Pwyllgor yr Apêl yn yr Ysgol Gynradd am 7.00 o'r gloch ar nos Fawrth 5ed Ionawr 1988. Byddwn yn ddiolchgar o gefnogaeth i drefnu Noson Goffi yn yr ysgol ar Nos lau 28ain o Ionawr.

Bydd gweithgareddau yn cael eu trefnu dros gyfnod o ddwy flynedd i gyrraedd y targed o £3,500 ond mae'n bosib cyfrannu trwy Roddion Cyfamod. Os ydych am wybodaeth pellach, neu heb anfon eich ffurflenni yn ôl, cysylltwch â Mrs Meirwen Lloyd, Afallon, Bryn Melyn, Llanrug.

DIOLCH: Dymuna Mrs Jennie Williams, 23 Heol Eleanor, Caernarfon ddiolch yn ddiffuant i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cydymdeimlad a'r cymorth a dderbyniodd yn ystod ei phrofedigaeth sydyn o golli ei hannwyl briod, Twm. Diolchir hefyd i bawb am eu rhoddion hael. Casglwyd cyfanswm o £402.50 tuag at Feddygfa Waunfawr. Estynnwn ninnau ein cydymdeimlad Mrs Williams.

DYWEDDÏAD: Llongyfarchiadau i Anwen Morris, Lleifior, Llanrug a Glyn Williams, Seion, Llanddeiniolen ar eu dyweddïad.

CROESO ADREF: Croeso adref i Bryn Williams, Ridfa sydd wedi dod adref o Awstralia.

CLWB PÊL-DROED LLANRUG UNEDIG:

Enillwyr Clwb 200: Hydref: 1. Hefina Roberts, Gwelfryn, Llanrug £40; 2. Mrs E. Hughes-Jones, Banc y Midland, Caernarfon £20; 3. Mrs Helen Shipley, Rhosddu, Llanrug £10. Tachwedd: 1. June Jones, Rhandir Mwyn, Llanrug £40; 2. Bryn Williams, Crugan, Llanrug £20; 3. Myrddin Williams, Penterfyn, Llanrug £10.

CINIO NADOLIG Y PENSIYNWYR: Nos lau, Rhagfyr 10, daeth tua 120 o aelodau hŷn cymdeithas Llanrug a rhai gwesteion ynghyd i'r Ysgol Gynradd i fwynhau yr achlysur hynod boblogaidd yma. Cynhaliwyd y noson yn ôl yr arfer, dan nawdd caredig Pwyllgor Carnifal y pentref. Roedd cludiant wedi ei drefnu ar gyfer y rhai sy'n byw bellter o'r ysgol. Yn ogystal â'r cinio traddodiadol a baratowyd gan ferched cegin yr ysgol gynradd, gyda chymorth staff cegin yr ysgol uwchradd, cafwyd

gwledd o adloniant hefyd sef wythawd o Seindorf Llanrug dan arweiniad Mr Glyn Williams, unawdau gan Ffion Jon Williams a Sera Thomas ac eitemau gan gôr yr Ysgol Gynradd gyda Mrs Mair Lloyd Hughes yn arwain ac yn cyfeilio. Ymunodd pawb i ganu carolau i ddiweddu'r noson.

Aelodau'r Pwyllgor Carnifal fu'n gweini'r byrddau a'r Cynghorydd Brian Jones, Cwm-y-Glo a dynnodd y raffl. Roedd 15 o wobrau. Derbyniodd pob un oedd yn bresennol anrheg fechan. Talwyd y diolchiadau ar ran Pwyllgor y Carnifal gan Mrs Dilys Jones a chyflwynodd rodd ariannol i goffrau yr Ysgol Gynradd. Mr Rol Williams, Waunfawr oedd arweinydd hwyliog y noson.

ENILLWYR Y CWIS LLYFRAU

CYSTADLEUAETH LLYFRAU CYMRAEG 1987-88: Llongyfarchiadau i dîm cwis llyfrau Safon 2 yr ysgol gynradd ar ennill y marciau uchaf drwy Arfon, ac felly hwy fydd yn cynrychioli'r rhanbarth yn y rownd Sirol yn ystod tymor y Gwanwyn. Roedd y genethod oedd yn cystadlu yn yr adran 7-9 oed yn ateb cwestiynau ar ddau lyfr o'u dewis hwy – sef 'Manuel' a 'Y Bwgarth'.

Gweithiodd timau Safon 4 a Safon 3 yn galed hefyd ar gyfer y cwis yn yr adran 9-11 oed ond, yn anffodus, ni ddaeth yr un ohonynt i'r brig y tro hwn.

GWELLHAD BUAN: Dymunir pob adferiad iechyd i Mr D Glynne Owen, Llys Eryri, sydd newydd dderbyn llaw-driniaeth mewn ysbyty yn Birmingham.

CYFARCHION: Dymuna Mrs Mai Parry, Bod Awel, Ffordd yr Orsaf, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'i chydnabod gan gynnwys un person sydd wedi bod yn ysgrifennu lythyrau di-enw amdani'n ddiweddar.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Sulwen, Dafydd ac Alison Ellis

CAFFI CEFN COED

(ger Ysgol Brynrefail)

LLANRUG

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDDS DDA ODDI WRTH BAWB YNG **NGHARTREF HENOED**

Y Foelas

FFORDD YR ORSAF

LLANRUG Ffôn: C'fon 4652

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

RHIANNON MORRIS

a holl staff

BWSIAU ARFON LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5175

DINORWIG

YR EISTEDDFOD

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Y gynulleidfa yn mwynhau'r wledd o gystadlu.

Enillwyr gyda'u tystysgrifau teilyngdod.

Dyma'r canlyniadau:

Llenyddiaeth

Gorffen Limrig: 1. Hugh Jones, Deiniolen ac Alice Griffith, Dinorwig; 2. Gwen Roberts, Deiniolen; 3. Dilys Williams. **Llinell Goll**: 1. Megan Morris; 2. Gwen Roberts, Deiniolen a Marina Roberts; 3. Hannah Roberts. **Llunio Brawddeg o'r gair 'Dinorwig'**: 1. Hugh Jones, Deiniolen; 2. Nellie Wyn a Hannah Roberts; 3. Alice Griffith a Hugh Jones. **Casgliad o Straeon neu Atgofion Doniol am y Chwarel**: 1. Hugh Thomas. **Casgliad o Las-enwau Chwarelwyr**: 1. Alice Griffith; 2. Hugh Thomas. **Traethawd Byr**: 1. Alice Griffith; 2. Gwen Roberts. **Asio Emyn**: 1. Hannah Roberts; 2. Megan Morris; 3. Alice Griffith a Megan Morris.

Celf a Chrefft

Casgliad o hanner dwsin o hen luniau neu luniau diweddar o ardal Dinorwig: 1. Eurwyn Morris; 2. Eurwyn Morris; 3. Dilys Williams. **Teclyn neu Arf mwyaf doniol i'w arddangos yn yr Eisteddfod**: 1. Megan Morris; 2. Delyth Ann Price, Deiniolen; 3. Dilys Williams. **Unrhyw enghraifft o waith llaw mewn coed, metel neu lechen a luniwyd yn ddiweddar**: 1. Gwilym Davies; 2. David Wood; 3. Gwilym Davies.

Coginio

Bara Brith: 1. Alice Griffith; 2. Megan Morris; 3. Ruth Boothroyd. **6 Teisen Gri**: 1. Helena Burrows; 2. Rene Morris; 3. Gwen Griffith, Deiniolen. **Quiche – unrhyw fath**: 1. Ann Dearn; 2. Dilys Williams; 3. Mary Jones. **6 Teisen Briwdda**: 1. Dilys Williams; 2. Sian Elen, Deiniolen; 3. Helena Burrows. **Dynion yn unig: 6 sgon**: 1. David Wood; 2. Trefor Lewis, Deiniolen; 3. John Boothroyd.

Gwau

Cardigan i fabi: 1. Margaret Jones; 2. A. Thomas, Deiniolen; 3. Sarah Anderson.

Cerddoriaeth

Unawd: 5-9 oed: 1. Ceri Hughes; 2. Steven Thomas ac Elfed Morris; 3. Jennifer Corless. **Unawd: dan 12 oed**: 1. Emyr Gibson; 2. Martin Llywelyn; 3. Catrin Keller. **Unawd: 12-15 oed**: 1. Delyth Price a Sara Wood.

Enillwyr y gystadleuaeth goginio i ddynion.

Canu Carol

Plant: 1. Catrin Keller; 2. Delyth Price; 3. Sara Wood. **Oedolion**: 1. Marina Roberts; 2. Betty Roberts; 3. David J Thomas.

Canu unrhyw Emyn Dôn: dros 50 oed: 1. Evan Roberts; 2. Betty Roberts; 3. D.J. Thomas. **Deuawd: Agored**: 1. Annette a Marina, a Sara a Delyth; 2. Owie ac Evan; 3. Betty ac Olwen. **Unawd: Agored**: 1. Evan Roberts; 2. Annette Parri a Betty Lloyd. **Pedwarawd: Agored**: 1. Grŵp Dysgwyr a Tŷ'r Ysgol.

Defnyddio unrhyw declyn i gael tiwn: 1. Eric; 2. Olwen; 3. Carol a Sian Elen.

Darllen darn heb ei atalnodi: 1. Iola Gruffydd; 2. Carol Price a Nia Land. **Sgets hyd at 3 munud**: 1. Grŵp Megan (Nellie, Alice a Megan).

Adran y Plant

Cynllunio Cerdyn Nadolig (du a gwyn): O dan 7 oed: 1. Jennifer Ann Corless; 2. Heather Burrows; 3. Christy Boothroyd. **O dan 9 oed**: 1. Sian Wyn Evans; 2. Hannah Boothroyd; 3. Aaron Thomas a Dafydd W. Jones. **O dan 11 oed**: 1. Eleri Evans a Natasha Thomas.

Cystadleuaeth Llawysgrifen: O dan 7 oed: 1. Alexander Lawcelay; 2. Rhiannon Longley; 3. John Owen Roberts. **O dan 9 oed**: 1. Sam Lea; 2. Richard Alun Haliday; 3. Maria Ann Spaini. **O dan 11 oed**: 1. Joc Jephson; 2. Martin Steven Thomas; 3. Nia Land a Martin Llew Williams.

Cystadleuaeth Lliwio Llun:

O dan 7 oed: 1. Heather Burrows; 2. Jennifer A. Corless; 3. Rhiannon Longley. **O dan 9 oed**: 1. Lyndsey Vaughan; 2. Becca Dutton; 3. Hannah Boothroyd. **O dan 11 oed**: 1. Victoria Drive; 2. Joc Jephson; 3. Nia Land.

DIOLCHIADAU

Beirniaid: Mr John Jones, Deiniolen (Cerdd); Mr Eurig Wyn, Groeslon (Llenyddiaeth ac Adrodd); Mr A Dearn (Celf a Chrefft); Valmai Davies (Adran y Plant); Gwyneth Davies (Coginio a Gwau).

Llywydd y Noson: Ceinwen Jones, Porthaethwy.

Arweinyddion: Marina Roberts a Iola Gruffydd.

Cyfeilyddion: Annette Parri ac Olwen Roberts.

Mr a Mrs Hugh Thomas – gwerthu rhaglenni; Mr John Roberts – casglu arian wrth y drws; Gillian Parry – teipio testunau; Rita, Heulwen, Hannah, Margaret – paratoi bwyd; Donna am werthu raffls ar y noson; Mr Gwilym Davies am wobr raffl; Emyr Gruffydd– am gynorthwyo i lunio testunau; Rhoddion: Gynghorydd a Mrs Jacob James a Mr a Mrs Owie Hughes, Rhydfadog.

GWEITHGAREDD BLYNYDDOL Y HYN YMLAEN: Cymaint oedd llwyddiant yr Eisteddfod fel mai'r teimlad cyffredinol ymysg y pentrefwyr yn awr yw y dylid ei chynnal yn flynyddol, a'i chadw yn weithgaredd pentref, cartrefol yng ngwir ystyr y gair, gyda'r pwyslais ar gael hwyl a mwynhad. Felly yn gynnar yn y flwyddyn newydd, mae Mr Glyn Tomos yn bwriadu dwyn pobl at ei gilydd i ffurfio pwyllgor ar gyfer gwneud y trefniadau priodol. Eisoes mae Mrs Ceinwen Jones, Llywydd yr Eisteddfod ar Ragfyr 1af, wedi neilltuo ei rhodd ariannol tu hwnt o hael, tuag at gychwyn cronfa cynnal Eisteddfod flynyddol. Diolchwn iddi am ei chyfraniad a'i chefnogaeth.

Hoffai'r pwyllgor apêl lleol ddiolch o galon i **bawb** a fu yn cystadlu; Llywydd y noson; Beirniaid; Arweinyddion; Cyfeilyddion; Gwerthwyr rhaglenni a raffl ac i'r merched am baratoi'r bwyd. Sicrhawyd elw o £85 tuag at Gronfa Apêl leol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990.

Yn y lle cyntaf fe'i teimlaf hi'n ddyletswydd i ddymuno Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa, a chyplysu â hynny ddymuniadau'r tymor ar gyfer y flwyddyn newydd sydd ar y gorwel.

Mae nifer o Saeson wedi dod i fyw i'r ardal a hyfryd iawn yw sylwi ar yr ymdrech ganmoladwy a wnant i ddysgu'r iaith Gymraeg, ac ymdaflu i fywyd yr ardal. Fe gynhaliwyd ganddynt fore coffi yn y Ganolfan ar fore Mawrth, Tachwedd y 24ain.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Fe barheir gyda gweithgarwch y Gymdeithas Lenyddol Undebol. Fe gafwyd noson ddiddorol iawn ar nos Fawrth, Tachwedd 10fed pan gafwyd hanes taith gyda sleidiau gan Miss Norah Jones, Bangor. Roedd ganddi ddiddordeb arbennig yng ngwlad Periw ac roedd ganddi sylwadau pur dreiddgar ar hen drigolion y wlad, sef yn Incas, a'r camdrin a fu arnynt gan Ewropeaid oedd yno i ecsploetio'r wlad a'i thrigolion yn enw cyfalafiaeth.

Ar gyfer nos lau, Rhagfyr 3ydd, fe sicrhawyd Mr Selwyn Griffith, Penisarwaun i drafod barddoniaeth ar gyfer plant. Yr oedd yn ein hannog i geisio myned i mewn i ysbryd plant. Yr oedd y siaradwr wedi llunio nifer o lyfrau i blant ar sail ei brofiad gyda hwy, ac fe dystiai ei fod yn ddyledus iawn i blant am nifer o syniadau gwreiddiol y gallai eu gweithio i mewn i'w farddoniaeth. Ar sail ei brofiad personol mynnai ein perswadio y gallem oll farddoni er i ni gredu ein bod yn anobeithiol yn y byd hwn. Er yn mwynhau a gwerthfawrogi barddoniaeth, nid oeddwn i'n credu bod defnydd bardd ynof fi.

Fe fu'r wythnos a ddechreuai ar Dachwedd 30ain yn wythnos brysur eithriadol yn ardal Dinorwig, gyda'r Eisteddfod bentref lwyddiannus iawn ar nos Fawrth a'r Gymdeithas Undebol ar nos lau.

COFION: Fe hoffwn anfon ein cofion i nifer o'r ardal sydd wedi eu taro gan afiechyd ac yn derbyn pob gofal gan anwyliaid. Mae Mrs Jones, 9 Maes Eilian gyda'r ferch yn yr Wyddgrug ar hyd o bryd, a'r un yw hanes Mrs Annie Jones, gynt o 5 Maes Eilian, ond sydd gyda'r ferch a'i mab yng nghyfraith yn Paradwys, Gaerwen, Ynys Môn. Mae eraill yn ein mysg sydd wedi eu neilltuo i'w cornelau – rhai fel Mrs Catherine Ellen Jones, gynt o Danybuarth Uchaf, ond yn byw gyda'r ferch yn Foelgron, a Mrs Dora Jones, Brynhyfryd, ei chymdogion hithau yn galw i'w gweld yn gyson a'r ferch yn dod o Lerpwl pob cyfle a gaiff.

Fe fuom ni o Sardis am o leiaf ddau Sul yn cynnal gwasanaeth y Sul yn y Ganolfan gan fod adgyweirio yn y Capel yn rhwystr i ni fyned yno. Hyderwn ddychwelyd i'r capel yn bur fuan.

CLWB ELIDIR, DEINIOLEN: Cyfarfu'r uchod brynhawn Mawrth, Tachwedd 24 yn Festri Disgwylfa. Cafwyd pnawn hapus iawn yn canu carolau gyda Mrs Nest Tudur Ifans wrth y piano a Mrs Miriam Lewis yn arwain. Yn ystod y gwasanaeth canwyd carol gan Rhodri a Robin Ifans a phawb yn ymuno yn y cytgan.

Rhoddwyd y te gan Mrs Ellen Williams, Mrs Betty Hughes, Mrs A M Morris a Mrs Idwen Thomas. Enillwyd y wobr gan Mrs E Griffith.

Dymunwyd yn dda i'r aelodau oedd yn cwyno, a chofiwn yn arbennig am y rhai sydd yn y gwahanol ysbytai. Yn ystod y te canwyd 'Pen-blwydd Hapus' i Mrs Katie Griffiths, Dinorwig oedd yn 80 oed y diwrnod hwnnw. Diolchwyd i bawb gan Mrs Miriam Lewis, y Llywydd.

Dydd lau, Rhagfyr 3ydd cafwyd Cinio Nadolig canol dydd yng ngwesty 'Y Clemence' yng Nghonwy, ac yna ymlaen i Landudno i dreulio gweddill y prynhawn. Mwynhawyd y dydd ac roedd pawb wedi cael amser da.

Gobeithiwn fynd yn ôl i'r Clinig i gyfarfod ddechrau'r flwyddyn. Diolchwn yn fawr i swyddogion Disgwylfa am ganiatau inni ddefnyddio'r festri tra bu'r adgyweirwyr yn y Clinig, hefyd i'r llu cyfeillion fu mor garedig wrthym yn ystod y flwyddyn.

Gobeithiwn gyfarfod rhwydro ym mis Ionawr, os caniata'r tywydd.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Nadolig Llawen i Bawb

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

O EISTEDDFOD YSGOL SYR HUGH

Stori gan Rebecca Brown, Waunfawr

Dyma un o ddwy stori a enillodd y drydedd wobr i Rebecca yng nghystadleuaeth y gadair i ddosbarthiadau 3 a 4.

"Nid yw'r Heddlu'n Amau fod Trosedd wedi ei Chyflawni."

"Faint sydd ganddi i fynd eto, Glyn?"

"O mi fydd o'n dwad unrhyw ddiwrnod rŵan."

"Ydach chi'n gobeithio am fab neu ferch?"

"Dydi Carys ddim yn poeni yn arbennig, ond rhyngot ti a fi a'r pared, mi fyddwn i wrth fy modd yn cael merch fach."

'Doedd Eifion ddim wedi stopio holi am Carys, a'r ffaith ei bod hi'n disgwyl ein plentyn cyntaf ers i'r wyth mis cyntaf ddod i ben. Mi fyddwn i'n blino arno weithiau, er fy mod yn gwybod fod ei galon yn y lle iawn. Roeddwn i wedi bod yn poeni ychydig ynghylch Carys fy hun, ond roedd y doctor wedi fy sicrhau fod iselder ysbryd yn beth arferol mewn beichiogrwydd.

Beth bynnag, roedd hi wedi hen droi hanner awr wedi pedwar, ac yn hen bryd imi feddwl am ei throi hi am adref rhag ofn i'r ysbyty geisio cysylltu â mi.

Roeddwn newydd orffen golchi'r llestri pan ganodd y ffôn. Fe wyddwn cyn ei ateb mai'r doctor oedd yno. Roedd yn wythnos bellach ers i Carys fynd i'r ysbyty, roedd yn rhaid iddi fynd yn gynnar oherwydd ei hoed. Roedd hi'n hwyr braidd arnom yn penderfynu dechrau teulu, ac roedd y ddau ohonom yn tynnu at ddeugain.

Doctor Emrys Bowen oedd ar y ffôn, yn galw i ddweud bod Carys ar fin rhoi genedigaeth i'r bychan, a'i bod yn ofynnol imi fod yn bresenol. Brysiais allan i'r car, ac i ffwrd â mi am Fangor.

'Doedd y babi byth wedi cael ei eni pan gyrhaeddais yr ysbyty, felly sefais yn ymyl gwely Carys i ddisgwyl. Nid oedd modd imi geisio cynnal sgwrs gyda 'ngwraig – roedd hi wedi cael cyffur i atal poen yr enedigaeth, felly roedd hi'n gysglyd iawn.

Bum munud ar ôl imi gyrraedd, fe anwyd fy mab, Siôn Rhys. Y peth cyntaf a sylwais oedd ei fod yn gorwedd yn hollol llonydd a distaw ym mreichiau'r doctor. Bach iawn oedd fy ngwybodaeth am fabanod, ond fe wyddwn fod plentyn newyddanedig i fod i grio ar ei enedigaeth, a'i fod fel arfer yn llawer iawn llai na'r babi yma.

"Ydi o'n iawn?" gofynnais yn betrusgar i Doctor Bowen.

"Ydi, ond mae'n fawr iawn ... ac ... edrychwch ... edrychwch ar ei lygaid o ... mae un yn las ... a'r llall yn frown ... welsoch chi'r fath beth erioed?"

Syllais yn fud ar y plentyn. Roedd geiriau'r Doctor yn wir – un llygad las, ac un llygad frown.

"Dwi isho gafael ynddo fo!" meddai Carys yn wantan o'r gwely.

Rhoddwyd Siôn ym mreichiau Carys. Yr oedd hi wedi dod at ei hun yn well o lawer erbyn hyn. Cododd Carys y bychan ar ei eistedd fel ei bod yn medru gweld ei wyneb yn iawn. Agorodd llygaid Siôn, a syllodd ar Carys. Roedd y funud nesaf i aros efo mi am weddill fy oes. Yr eiliad yr agorodd Siôn ei lygaid i syllu ar ei fam, gwelais ofn dychrynllyd ar wyneb fy ngwraig, roedd y mynegiant ar ei gwyneb yn un o banig llwyr. Yna, cwympodd yn ôl ar y gobennydd.

Camais at y gwely, ond roedd Doctor Bowen o 'mlaen i, a phlygodd dros Carys.

"Beth sy'n bod arni doctor, ydi hi'n iawn?" Wedyn wrth iddo ddweud dim, gwaeddais mewn ofn, "Dwedwch rywbeth, 'newch chi ddyn!"

Bu Doctor Bowen yn hir cyn dweud gair. Yna, mewn llais crynedig dywedodd,

"Mae'n ddrwg iawn gen i, Mr Edwards, ond mae'ch gwraig wedi marw, yr unig esboniad yw ei bod hi wedi cael trawiad ar y galon."

"Wedi marw? Carys? Na! Doctor! Na! Carys! CARYS! CARYYYYS?"

Y noson wedyn, roeddwn adref yn eistedd ger y tân. Nid oeddwn yn medru edrych ar Siôn, a oedd yn ei grud. Rywsut, teimlwn mai fy mab oedd yn gyfrifol am farwolaeth Carys. Teimlai'r tŷ yn wag hebddi, ac roeddwn yn gobeithio na ddeuai neb heibio i holi ei hanes, gan nad oedd y newyddion am ei marwolaeth wedi cael ei ledaenu.

Codais, ac ês i'r cefn i wneud paned i mi fy hun. Roedd Siôn yn ddeuddydd oed erbyn hyn, ond roedd yn rhyfeddol o gryf. Mi fedrai dynnu ei hun i ben cadair yn hawdd, a symud hyd yr ystafell yn weddol ystwyth. Er cyn lleied a wyddwn am fabanod, roeddwn yn gwybod o'r gorau fod hyn yn anghyffredin. Crwydrodd fy meddwl at Carys.

"O Carys, tyrd yn ôl ata'i ... rwy'n dy golli di gymaint!" meddwn yn ddistaw. Roedd fy ngofid a'm hiraeth am fy ngwraig yn peri y fath boen imi, fel fy mod i eisiau ysgwyd Siôn a'i gosbi rhywsut. Ond gwyddwn fod hynny'n anghyfiawn – trawiad ar y galon a ddywedodd y doctoriaid, o ganlyniad i'w hoedran pan oedd yn feichiog.

Roedd y tegell wedi berwi, ond fel yr oeddwn yn tywallt y dŵr crasboeth i'r gwpan, fe glywais oglau llosgi yn dod o'r ystafell flaen.

Brysiais yno a gwelais Siôn ar ei liniau ar yr aelwyd – roedd wedi llwyddo i ddringo allan o'r crud unwaith eto. Yr hyn oedd yn gwneud arogl llosgi oedd y blanced a gariai gydag ef. Blanced o'i grud ydoedd, roedd un pen ohoni yn ei geg, a'r pen arall yn y fflamau. Fel yr edrychais ar y plentyn, trôdd ei ben, ac roedd y fath olwg o gasineb ar ei wyneb nes peri imi fod eisiau ei ladd. Gafaelais ynddo a'i dynnu o'r tân, gan ddiffodd y fflamau hefyd. Gadewais iddo eistedd ar ganol y llawr heb hyd yn oed wneud yn siŵr nad oedd wedi brifo. Wrth ei dynnu o'r fflamau roeddwn wedi rhoi cryn ysgytwad iddo, ond nid oedd yn crio.

Eisteddais yn hir yn y gadair yn synfyfyrio. Roedd casineb tuag at Siôn yn corddi yn fy stumog, ac roeddwn yn teimlo'n anhapus iawn, oherwydd, wedi'r cwbwl, mi oedd yn fab i mi, ac roeddwn i fod i'w garu.

Yn emosiynol tynais ef ataf, a'i ddal ar fy nglin fel y gwnaeth Carys gydag ef yn ei munudau olaf. Syllais i'w lygaid. Roedd rhywbeth treiddgar ofnadwy yn perthyn iddynt, a theimlais fy mhen yn ysgafnhau. Wrth edrych yn ei lygaid, gwelais Carys. Roedd hi'n rhedeg tuag ataf, a'i gwallt modrwyog tywyll yn sboncio yn y gwynt.

"Carys! Carys! Dwi yma! Tyrd ata' i!" Ond fe giliodd y llun, a sylwais fod llygaid frown Siôn wedi troi'n ddu, trwyddi gwelais Carys ar ei gwely ysbyty. Cefais fy hun yn ail fyw'r digwyddiad a gymerodd fy ngwraig oddi wrthyf am byth.

"CARYS! CARYS! Paid ag edrych i'w lygaid! Carys! Dwi'n dy garu di!" Tewais pan welais oerni llygaid Siôn. Gollyngais y crwt ar y llawr, ac ês at y ffenestr. Edrychais ar fy oriawr. Roedd hi bron yn unarddeg. Penderfynais fynd i'r gwely.

Y bore wedyn, ês yn unswydd at grud Siôn. Oedd, roedd o yna, yn syllu arnaf gyda'r llygaid rhyfedd yna. Nid oeddwn eisiau bwyd, roedd fy ngalar am fy ngwraig yn rhy ddwys i alluogi imi fwyta. Bwydais Siôn ac wedyn ês i eistedd i lawr. Nid oeddwn wedi cysgu llawer yn ystod y nos oherwydd hunllef ofnadwy a gefais. Roeddwn yn gysglyd nawr, a gorweddais yn ôl ar y gadair.

Cefais fy neffro gan arogl llosgi unwaith eto. Eisteddais i fyny yn frysiog. Roedd y tŷ ar dân! Gwelais fflamau enfawr yn nesáu tuag ataf. Edrychais o gwmpas – doedd dim golwg o Siôn.

"A dyma'r penawdau am heno. Difethwyd tŷ yn ymyl Bangor gan dân y bore 'ma. Darganfuwyd corff dyn yng ngweddillion y tŷ, a chredir mai Mr Glyn Powell-Edwards oedd y gŵr. Mae Siôn Rhys, ei fab bychan yn dal ar goll. Nid yw'r heddlu'n amau fod trosedd wedi ei chyflawni.

Caewyd ffatri yn Sir Benfro o ganlyniad i ..."

Trôdd Eifion Rees nobyn y teledu i ffwrdd a syllodd i wacter. Roedd wedi treulio'r prynhawn gyda mam Glyn, ond ofer fu pob ymdrech i'w chysuro.

Wythnos wedi'r tân, darganfuwyd Siôn yn yr unig ran o'r tŷ a oedd heb ei lwyr ddifetha. Heddwas o'r enw Tegid Pritchard a'i darganfu o dan silff a oedd wedi dal llyfrau. Ni chafodd Tegid gyfle i adrodd ei stori wrth y wasg. Darganfuwyd ei gorff yntau rai dyddiau wedyn. Y tro yma hefyd, nid oedd sôn am Siôn Rhys.

FFERMWYR IFANC CAERNARFON

Diddorwyd y clwb gan Mr Duncan Brown o'r Waunfawr ar Nos Fawrth, Tachwedd 24ain a ddangosodd sleidiau 'O'r Môr i'r Mynydd' a oedd wedi eu selio ar ei waith gyda'r Cyngor Gwarchod Natur. Diolchwyd iddo gan Sioned Parry, Pengelli.

Nos Iau, Tachwedd 26ain aeth deg aelod o'r Clwb i Gyfarfod Blynyddol y Sir. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd siec gan Meinir Williams, Cadeiryddes y Sir i Nia Jones, Swyddog Datblygu Cymru o £1,300 fel cyfraniad Eryri i ymgyrch Leukemia Y Cylch Tân Celtaidd a gynhaliwyd yn ystod mis Awst ynghyd â siec o £100 fel rhan o wobr tim Eryri yn Pentymora. Hefyd gwnaethpwyd casgliad i Gronfa Plant Mewn Angen yn ystod y Cyfarfod a casglwyd £67.

Trafod arolwg y clybiau 1986 a wnaethpwyd yn y Clwb nos Fawrth Rhagfyr 1af pryd y cafwyd ymateb aelodau'r clwb i wahanol bethau ddaeth allan o'r arolwg fel 'Beth oeddent yn hoffi neu gasau am y clwb?' 'Pam eu bod yn mynychu?' ac 'A ydym yn cystadleu gormod?' Cafwyd ymateb bob aelod a dysgwyd llawer am yr aelodau a'r Clwb yn ystod y noson. Nos Fawrth, Rhagfyr 8fed cynhaliwyd sosial yn y Clwb pryd y darparwyd bwyd gan Ellen Hughes, yr ysgrifennydd a gemau gan yr aelodau. Mwynhawyd y noson gan bawb ac enillwyd gwobrau gan Gwen Jones, Eurwyn Jones a Rhian Thomas. Diolchwyd i bawb am gymryd rhan gan Myfanwy Jones.

WPS!

Roedd George Brown, y cyn Ysgrifennydd Tramor, o hyd ac o hyd "yn flinedig ac emosiynol" (meddw). Un tro, roedd yn y cyflwr yma, efallai yn waeth nag arfer, mewn gala ryng-genedlaethol yn Rio de Janairo. Cyrhaeddodd awr yn hwyr.

Penderfynodd mai'r ffordd orau i osgoi sgyrsiau diplomatyddol poenus fyddai iddo fynd yn syth ar lawr y ddawns ac ymuno yn hwyl y dawnsio. Siglodd ei ffordd tuag at y weledigaeth mewn coch tywyll gan fwmian "Ddewch chi i ddawnsio, Madam?"

"Wna i ddim dawnsio efo chi," meddai'r weledigaeth mewn coch tywyll, "am dri rheswm. Yn gyntaf, rydych chi'n feddw; yn ail, mae'r band yn chwarae'r anthem genedlaethol; ac yn drydydd, fi yw Esgob Montevideo."

TYDI PLANT YN OFNADWY, D'WCH?

Pan ymwelodd yr Arlywydd a Mrs Reagan â gwledydd Prydain ym 1984, dygwyd grŵp o blant i gyfarfod Nancy yn Sŵ Llundain.

A'r camerau'n ffilmio'r achlysur, trodd Nancy at un bachgen bach gan ofyn iddo pa anifail oedd o wedi ei hoffi orau yn ystod y diwrnod, "Y cyw iâr a gefais i ginio", oedd yr ateb clir a gonest.

DRAENOG

DUwcs, glywsoch chi am y ffarmwr 'na aeth i'r sioe fawr yn Smithfield? Roedd o'n aros dros nos ac eisiau socian ei ddannedd gosod mewn gwyDUr. Wn i ddim pwy DDUdodd wrtho fo fod coca cola yn well na dŵr Llundain ar gyfer y job. DUn drwg iawn oedd o mae'n rhaid. Gesiwch pa liw oedd y dannedd yn y bore? (Mae un neu ddau o gliws yn y stori).

"BLUE MOON' a PHERFEDD TWRCI

(Y stori oedd yn fuddugol yng Nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Llanrug eleni.)

Sadwrn cyn 'dolig.

Pumed rownd cwpan pêl-droed Gogledd Cymru i glybiau 'bach'; ac am y tro cyntaf erioed yn hanes Clwb Pêl-droed Cwm Rovers, roeddynt wedi llwyddo i ymuno â'r criw dethol a fyddai'n brwydro am le yn y 'semis'.

Yng nghegin Tŷ Capel reodd y llestri brecwast eisoes wedi eu clirio, a Martha Parry wrthi'n brysur gyda'i pharatoadau ar gyfer y Te Parti blynyddol a oedd i'w gynnal drannoeth. Setlodd William Parry hefo'i bapur dyddiol yn y gadair freichiau wrth y tân bach, a throi i dudalen y croeseiriau. Dyna'i ddileit. Heddiw, gwyddai fod un o'r croeseiriau eliffantaidd rheini i'w datrys, ac ysai am fynd i'r afael ag o.

Wan acros: *"Swimming in the deep ..."*

"Mi ddylat ti fynd."

"Be?"

"Mi ddylat ti fynd" – a chafodd y toes ei dylino fymryn caletach fel y pwysleisiai Martha ei ddyletswydd i William.

"Dim awydd."

"Ond mae'n ddyletswydd arnat ti."

"Does gen i fawr o isio ..."

Ond ym mêr ei esgryn, gwyddai William Parry mai dadlau ofer oedd hyn, ac mai mynd fyddai raid. Byth ers pan enillodd Cwm Rofars eu ffordd drwodd i bumed rownd y cwpan, bu Martha yn edliw ei ddyletswydd iddo. Ond doedd William ddim eisiau teithio i Rydfari, a bu'n chwilio am bob esgus rhag mynd.

Do, fe fu'n gwylio ambell i gêm gartre', a doedd o ddim wedi colli yr un gêm cwpan, ond roedd rheini i gyd wedi eu chwarae ar gae'r Cwm. A doedd William Parry ddim eisiau teithio oddi cartre' i wylio unrhyw gêm ffwtbol.

Nid y gêm ei hun a'i poenai; nid y teithio 'chwaith, ond yn hytrach y cwmni yn dilyn y gêm. Doedd ganddo fawr i'w ddweud wrth gefnogwyr y tîm. Roeddynt yn rhy hoff o fynd i godi bys bach yn dilyn pob gêm, ac ni chredai William Parry fod hynny'n gweddu rhywsut i geidwad y Tŷ Capel. Ni feddyliai fod unrhyw achlysur yn teilyngu tywyllu drws tafarn, heb sôn am brynu nac yfed y trochion afiach a werthid o'i mewn.

Ac felly, doedd hi'n ddim syndod fod William Parry, gofalwr Capel Bethania, parchus flaenor gyda'r Hen Gorff, ac Arolygwr yr Ysgol Sul; yn gwrthwynebu y daith i Rydfari.

Ond roedd Martha am iddo fynd – a Martha oedd pen blaenor y Tŷ Capel – felly mynd oedd raid.

Ac ar Cledwyn roedd y bai.

Cledwyn. Unig fab William a Martha Parry. Methiant llwyr ym mhob peth yn ymwneud â bywyd Capel Bethania. Rhodd Mam: *'failed'*. Hyfforddwr: *'failed'*. Arholiadau Lefel A Cymanfa'r Henaduriaeth: *'O' level pass*. Fedrai Cledwyn ddim pasio'r Cwpan Cymun heb gymryd mwy na'i siâr o'r gwin.

Cledwyn. Llwyddiant ysgubol tîm pêl-droed Cwm Rofars a seren ddisgleiria'r pentref yng ngolwg y cefnogwyr.

Ia, ar Cledwyn roedd y bai i gyd.

A rwan, roedd Martha Parry am i William ddilyn y tîm yr holl ffordd i Rydfari i gefnogi Cledwyn. Wel, os câi lonydd rhag tafod Martha, a llonydd hefo'i groesair ar ôl dod 'nôl ...

Mynd amdani.

Rhyw ginio ffwr-a-hi gafodd William a Cledwyn Parry. Rhwng paratoadau'r Te Parti a'r ffaith fod y bws yn cychwyn am hanner dydd aeth pethau'n râs wyllt. Ond rhyw din-droi rhag cychwyn yn rhy fuan i gwrdd y bws a wnai William: roedd o'n cychwyn o faes parcio'r 'Lion'. Llafnau ifanc yn rhuthro am y sêt gefn. Seti blaen: risyrfd i'r tîm a'r Pwyllgor. Ac felly y cafodd William Parry ei hun yn bachu'r unig sêt wag oedd yn weddill, rhywle rhwng canol a chefn y bws.

"Yyy ... sgiwsiwch fi ... yy ... gobeithio nag ydach chi'n meindio ..."

"Dim o gwbwl, del. Steddwch. Mec iwrselff comffi. Mi fydda'i wrth 'y modd efo jentlmyn."

Teimlai William y gwrid yn codi o'i fogail ac yn llamu'n chwyslyd i'w wyneb. Aeth yn boeth ac yn oer ar yr un pryd. Doedd o ddim wedi teimlo fel hyn ers noson ei fis mêl, a gwylio Martha'n diosg ei chorsets.

Mrs Eleanor Higham. Os Musus hefyd.

Un o *"good-time-girls"* y rhyfel. Byw a bod efo pob Americanwr a ddaeth i'r gwersyll dros-dro yn y Cwm. Yr hogan ddela'n y Cwm – nes iddi agor ei cheg, a dangos pa mor wag oedd ei phen. Ond doedd hynny'n ddim poen i Americanwr pell oddi cartref, unig. Os oedd y corff yn barod ... Ac yr oedd o, yn ôl pob stori.

Eleanor Roberts. Neli Blwmar Llac. A rwan, ar ôl rhedeg i ffwrdd efo un o'r Americanwyr, Mrs Eleanor Higham. Wedi dychwelyd i'r Cwm – heb ei gŵr – i ddod a thipyn o *"glamour"* tu ôl i far y 'Lion'. A'i mab, Hiram Higham (Hei Hei i hogia'r pentra') yn cadw trefn ar bac-lein y diffens yn nhîm y Rofars.

"Yyy ...sudachi Musus Higham ... yy ... wyddwn i ddim ... yy ... 'ch bodchi'n dilyn y ffwtbol."

"Duty bound, William Parry. Prowd iawn o'r hen hogyn bach."

Fel 'tae'n bosibl i unrhyw un alw Hei Hei yn 'hogyn bach', a hwnnw'n chwe modfedd talach nac unrhyw un arall ar y bws, ac yn debycach i aelod o'r Harlem Globetrotters nac i sentyr-hâff Cwm Rofars.

"Yyy ... wel ... yy ... trio dangos rhyw ddiddordeb ... yy ... yng ngyrfa'r hogyn Cledwyn 'cw, wchi ... yyy."

"Wrth gwrs. *Good to see* fod *parents* fel chi a fi yn cymyd *interest* yn 'i plant. *Not many do it now y'know*."

Gwridodd William Parry unwaith eto o gofio'r dadlau efo Martha ynglŷn â'i ddyletswydd. Fe fyddai'n ddyletswydd pur wahanol pe gwyddai Martha ei fod o, William, yn eistedd efo Neli Blwmar Llac yn un o seti cefn bws ffwtbol Cwm Rofars am ddwyawr o daith i Rydfari.

Ond os oedd raid i ddyn wneud ei ddyletswydd.

Yn air, erbyn cyrraedd Rhydfari, roedd William a Neli wedi mynd i sgwrsio'n reit frwd, ac yn pitio braidd fod yn rhaid mynd allan o'r bws i wylio'r gêm.

Ennill wnaeth y Cwm. Pedair gôl i ddwy. Hat-tric i Cled Tŷ Capel ac un arall i Hei Hei hefo'i ben – heb iddo orfod codi ei draed oddi ar y llawr.

Ar ôl y gêm y dechreuodd y miri.

Roedd Cwm Rofars trwodd i'r semi-ffeinal, a'r tîm a'r cefnogwyr yn ferw.

Cle-ed! Cle-ed!

Cw-wm! Cw-wm! Hiyr wi go; hiyr wi go; hiyr wi go!

Cwm ffor ddy cy-yp! Cwm ffor ddy cy-yp!

Ai'r siantio yn uwch ac yn uwch, a suddai calon William Parry yn is ac yn is. Gwyddai fod dathlu i fod – a hynny cyn cychwyn am adre. Duw a ŵyr beth fyddai canlyniadau'r noson bellach, a dechreuodd boeni am ymateb Martha pe cyrhaeddai'r bws yn ôl yn hwyr.

Diflannodd y tîm i'r ystafelloedd newid. Diflannodd pawb arall i dafarn y Golden Cockerel. Pawb, ond William. Eisteddodd yn unig a hunan-dosturiol yn un o seti blaen y bws gan syllu o ddrws y dafarn i ddrws yr ystafell newid. Gwyliodd hogiau'r tîm yn llifo allan o un drws ac i mewn i'r dafarn; Hei Hei a Cledwyn a breichiau am ysgwyddau'i gilydd yn chwerthin a gweiddi. Bobol annw'l! Pe gwelai Martha fo rŵan!

Ymhen hir a hwyr, daeth Huws Insiwrans allan o'r dafarn ac am y bws. Diolch i'r drefn, meddyliodd William Parry, mae rhyw siap cychwyn arnyn' nhw.

"William Parry," cyfarchodd Huws ef. "Liciwn i ddim meddwl y'ch bod chi'ch hun yn yr hen fws oer 'ma, a phawb arall yn cael c'nesrwydd i mewn 'cw."

"Aelwyd y fall, Huws," atebodd William, "aelwyd y fall."

"Ond William Parry, bach, nid rhyw hen dafarn 'gommon' fel y 'Lion' ydi'r Golden Cockerel. Sbiwch ar yr arwydd uwch y drws: *'Hotel and Restaurant'* mae o'n ddweud. Ac yn y restront ma' rhan fwya' o'r criw. Rhyw un ne' ddau sy'n ... ym ... licio'i beint wchi."

"A Cledwyn ni'n un o'r rheini ma'n siŵr."

Teimlai Huws Insiwrans, fel Cadeirydd y Clwb Ffwtbol, ac fel dyn busnes ac insiwrans adeiladau Capel Bethania yn ei ofal, mai doethach fyddai peidio gnweud unrhyw sylw ar hyn. Yn hytrach, ceisiodd dacteg arall.

"Wyddoch chi William Parry, fod Clwb Rhydfari 'ma wedi bod y tu hwnt o groesawgar wchi. Wedi trefnu i baratoi bwyd i'r tîm a'r pwyllgor; a wir ichi, ma' gwahoddiad i'r cefnogwyr i gael rhyw damad bach hefyd. Sgram werth chweil, William Parry. Dowch draw i ga'l rhyw fechdan. Mi cadwith chi rhag llwgu cyn cyrradd adra."

Ac yn wir, gan fod Huws wedi sôn am fwyd, sylweddolodd William Parry nad oedd wedi cael fawr i'w fwyta ers amser brecwast.

"Dowch i nôl rhyw damad bach, William Parry. Mi ddoi mewn trw' ddrws y restront hefo chi. Fydd dim rhaid i ni fynd ar gyfyl y rhan sy'n gwerthu'r ddiod feddwol wchi."

Oedd, roedd y gwahoddiad yn swnio'n fwy derbynion bob gafael. Ac O! Roedd chwant bwyd arno.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

Ac fe roi rhywbeth am banad o de.

Cydsyniodd William Parry.

Synnodd fod restront mewn tŷ tafarn yn lle mor gyfforddus. Suddodd i un o'r seti a phlatiad o sosej rôls a bechdanna' ham cartra gyda'r gorau iddo'u blasu ers cantoedd, ar ei lin. Roedd ei geg yn grimp o eisiau diod. Wyddai o ddim sut i ofyn am baned mewn lle o'r fath, ond doed dim posib gwneud cyfiawnder â'r bechdannau ham a'i dafod o mor sych.

Tra'r eisteddai mewn cyfyng-gyngor, hwyliodd Neli Blwmar Llac i mewn o un o'r ystafelloedd eraill.

"William Parry! Fan hyn 'dachi'n cuddio. A finna eisiau eich *company* chi."

"Ca'l fy mherswadio ... yy ... Musus Higham ... yy ... sgiwsiwch fi'n bod mor hy' ... yy ... ond oes bosib ca'l panad mewn lle fel hyn deudwch?"

"Panad, William Parry?" chwarddodd Neli. "Panad? A hitha'n amsar celebratio?"

"Wel. yy ... rwbath bach i 'lychu 'ngheg 'ta?"

"'*Blue Moon*'"

"'*Blue Moon*'?"

"'*Blue Moon*', William Parry. Dyna fydda i'n ei yfed bob amser."

Dechreuodd yr olwynion bach droi yn ymennydd William Parry, a sugnodd o berfeddion ei gof yr holl wybodaeth groeseiriol a ddysgodd. '*Blue Moon*': *Lonely lunar drink: four and four.* Cofiodd fel y bu am hydoedd yn ceisio darganfod yr ateb i'r cliw yma, a'i gael o'r diwedd mewn Geiriadur Diodydd yn llyfrgell y dref. *"A drink made of quantro, lime and lemonade."* Rhyw ddiod ffrwythau mae'n rhaid, er na chlywodd o rioed am ffrwyth o'r enw quantro. Ond dyna fo, roedd pob math o ffrwythau ecsotic yn dod i mewn i'r wlad bellach. Dyna i chi kiwi er enghriafft. Pwy fasa'n meddwl ei bod hi'n bosib' gwneud polish allan o ffrwyth?

"Fasachi'n licio tastio un?" torrodd Neli ar draws ei feddyliau.

Meddyliodd William Parry am ennyd. Ond ennyd fer iawn. Diod o sudd ffrwythau: dim drwg yn hynny.

"Diolch yn fawr iawn ... yy ... Nel..i."

Pan ddychwelodd Neli 'nôl o'r bar efo gwydr hir yn llawn o *"Blue Moon"*, roedd William Parry wrthi'n byseddu'r briwsion oddi ar ei blât.

"Blasus iawn. Gobeithio ych bod chi wedi ca'l digon i'w fwyta?"

"*Just enough*, William Parry. Rhaid i mi watchio fy *figure y'know*."

Doedd William Parry ddim yn gwybod, ond cytunodd, a drachtio o'r ddiod a osodwyd o'i flaen. Roedd y blas yn wahanol. Blasus, ond gwahanol. Llowciodd weddill y ddiod.

"Blasus iawn. Blasus iawn wir."

Sylwodd fod gwydr Neli yn wag hefyd, a styffagliodd William Parry i'w boced i nôl arian i dalu am ddiod arall i'r ddau ohonynt.

Ac felly y bu. Neli yn cario, William yn llowcio – a William yn talu.

Bu'n rhaid cael cryn berswád ar William Parry i adael y restront, a mynnai gael potelaid o *"Blue Moon"* i fynd adra i Martha. Doedd dim posibl ei ddarbwyllo nad oedd yn bosib prynu potelaid o'r fath ddiod, a'r unig ffordd o'i gael ar y bws oedd rhoi potel o lemoned ym mhoced ei gôt – a gobeithio'r gorau.

Doedd William Parry yn cofio fawr ddim o'r siwrnai adre. Gwyddai iddo bendympian y rhan fwyaf o'r ffordd. Teimlai'n gyfforddus. Yn fwy cyfforddus hyd yn oed nac yn un o seti crand y Golden Cockerel. Pwysai ei foch ychydig yn is nac ysgwydd Neli Blwmar Llac, ac yr oedd ymchwydd ei bron chwith yn rhoi rhyw deimlad cartrefol iddo.

Pan gyrhaeddodd y Tŷ Capel y torrodd y storm. Ond am unwaith, ni theimlodd William Parry ddim o'i rhuthr na'i rhyferthwy. Aeth y storm i'w gwely wedi chwythu ei phlwc.

Doedd William Parry ddim yn teimlo'n ddigon cryf i fentro i fyny'r grisiau am y ciando, ac felly lled-orweddodd ar y soffa, a llacio tipyn ar fotymau ei drowsus.

Pan ddaeth Cledwyn Parry a Hei Hei i'r tŷ ar ôl stop-tap yn y 'Lion', roedd William Parry yn cysgu'n sownd ar y soffa a'i drowsus yn llydan agored. Rhyw hwyl diniwed ar ran y ddau oedd penderfynu chwarae tric arno.

Yn ystod y dydd bu Martha wrthi'n brysur yn gorffen y gwaith coginio ar gyfer y Te Parti, a gan fod amser wrth gefn, a llonydd i'w gael yng nghegin Tŷ Capel, aeth ati i baratoi'r twrci ar gyfer y Nadolig. Roedd wedi ei ddadberfeddu, ei olchi a'i sychu. Gosododd y perfedd mewn powlen o ddŵr oer – yn barod i wneud grefi a chawl. Y perfedd fu achos y demtasiwn i Cled a Hei Hei.

Cawsant gryn hwyl ar osod y perfedd i orwedd yn ddeniadol dros stumog William Parry: un hanner allan, a'r hanner arall wedi ei wthio i mewn dan y balog agored. Ac felly y gadawyd William Parry tan y bore.

Clywed Cledwyn feddw yn baglu a hanner canu wrth chwilio am ei wely a wnaeth i Martha sylweddoli nad oedd William wedi cyrraedd i'r llofft. Er ei bod yn parhau'n ddig efo'i gŵr oherwydd ei gyflwr pan ddaeth adre, eto'i gyd, ni allai lai na theimlo fod rhan o'r bai yn disgyn ar ei hysgwyddau hi am ei orfodi i fynd. A doedd hi ddim yn beth gweddus iawn i flaenor gyda'r Hen Gorff gosgu i lawr grisiau a'i wraig yn y llofft – ei hun.

Camodd Martha yn ofalus o ddistaw i lawr y grisiau ac agor drws y gegin. Seriwyd yr olygfa a'i wynebai ar ei meddwl am byth.

Gorweddai William yn gegrwth ar y soffa. Ar ei stumog roedd yr hen gath frech yn pawennu rhyw gigach gwaedlyd o rywle tu mewn i'w falog.

Rhoes Martha un sgrech cyn llewygu.

Mae'n debyg mai cyfuniad o'r sgrech a sŵn pen Martha'n taro'r ffendar wrth lewygu a wnaeth i William ddeffro. Erbyn hynny, roedd y gath – a'r perfedd – wedi diflannu trwy'r drws.

Cafodd Martha ddod adra o'r ysbyty y diwrnod cyn y Nadolig.

Ond rhyw 'ddolig go, bethma gafodd teulu Tŷ Capel.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Yn ddiweddar, anfonodd Mrs Baylis, Llanberis, hanes ei hymchwiliad yn yr Hen Destament i mi. Y mae'r hanes mor hynod o ddiddorol a gwerthfawr, gofynais am ei chaniatad i'w roi yn fy ngholofn yn Eco'r Wyddfa. Ei hateb oedd "À chroeso". Gwn y cewch chwithau bleser a bendith yn ystod Gwyliau'r Nadolig eleni i olrhain yr hanesion hyn. Diolch yn fawr i Mrs Baylis.

Peth o Gerddoriaeth yr Hen Destament
Gan Dilys Baylis

Telyn. Genesis, 4:21.
Jubal oedd dad pob teimlydd (yn trin) telyn ac organ – cyn bod sôn am Elinor Bennet na Peleg Williams.

Côr Meibion. Exodus 15.
Yna y canodd Moses a meibion Israel gân i'r Arglwydd – Côr Meibion – cyn bod sôn am Gôr Caernarfon.

Deuawd. Barnwyr 5:1.
Yna canodd Deborah a Barac **Ddeuawd** o fawl i'r Arglwydd – cyn bod sôn am Rosalind a Myrddin.

Udgorn a Thrwmped. 11 Chronicl, 15:14.
Hwy a dyngasant i'r Arglwydd â llef uchel, udgyrn a thrwmpedau – cyn bod sôn am Gorngwlad yr Eisteddfod.

Esaiah 5:12.
Yn y gwleddoedd roedd **telyn, nabl, dympan** a'r **bibell** – cyn bod sôn am Gerddorfa Gymreig y BBC.

Pibellau. 1 Brenhinoedd 1:40.
A'r bobl a aethant i fyny mewn llawenydd yn canu pibellau – cyn bod sôn am Seindorf Deiniolen a Llanrug.

Organ. Job 21:12
Cymerasant **dympan** a **thelyn** a llawenychasant wrth lais yr organ – cyn bod sôn am y "1,000 Voices" Albert Hall.

Canu. 1 Samuel 16:18.
Wele fab Jesse yn medru **canu** yn rymus o nerth – cyn bod sôn am Bryn.

Cerddor.11 Brenhinoedd 3:15.
A phan ganodd y cerddor daeth llaw yr Arglwydd arno – cyn bod sôn am Elwyn Jones.

Udgorn. Psalm 81:1.
Cymerwch Salm, dympan **telyn** fwyn a'r nabl, udgenwch udgorn – cyn bod son am Hogia'r Wyddfa.

Organ. Psalm 150:4.
Molwch yr Arglwydd â thannau ac ag **organ** – cyn bod sôn am Arthur a Gwen!

Cloch. Exodus 28:34.
Cloch aur a fydd ar Aaron yn y cysegr – cyn bod sôn am gloch eglwysi Cymru.

Psalm 150
Molwch yr Arglwydd.

Dilys Baylis

Diwedd y Gaeaf

Tlws yw pefr llygaid Chwefror – yna Mawrth
Gawn am wyrthiau'n rhagor.
Mor fwyn fydd Gwanwyn a'i gôr
Daw yma yn ei dymor.

G.R.

Gweithio ar y dociau yn Lerpwl, 1917

Dyma'm hanes, dim ymenyn – na chig
Na chaws, gwael yw'r enllyn:
Uchel yw pris cig mochyn!
Maes o law beth ddaw o ddyn?

Ni fyddaf yn ddifeddwl – edrychaf
Yn drachwyrn a manwl,
Y giwed hyll: gwae y dwl
Ei larpio gaiff yn Lerpwl.

G.R.

Tad yr Afradlawn

Heb ddadl i'w fab afradlawn – addawodd
Ei faddeuant graslawn;
A nefoedd i'r anghyfiawn
Onid yw Duw yn Dad iawn!

G.R.

Gwlad y Gân

Am aneddle mwyneiddlan – huawdledd
Cu odlau a chyngan:
Mawl l7or a themlau eirian,
Goludog yw Gwlad y Gân.

G.R.

"Dall a Dwl yw dyn
Os na wel Duw mewn blodyn."

Pwy?

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss N. Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (Llanberis 870030)

CYDYMDEIMLIR â Mrs Sharon Jones, merch-yng-nghyfraith Mr a Mrs Alwyn Jones, 3 Tai Tan-y-Coed, yn ei phrofedigaeth sydyn o golli ei thad, y diweddar Mr William Glyn Roberts, 10 Ffordd Llanberis, Caernarfon. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll, brodyr a chwiorydd Sharon, a Dylan ei phriod.

YR YSGOL SUL: Dydd Sul, Rhagfyr 20fed cynhelir Gwasanaeth Nadolig plant Ysgol Sul Tan-y-Coed. Y gwasanaeth i ddechrau am 2 o'r gloch.

Y dydd Llun canlynol, Rhagfyr 21ain yw dyddiad Te Parti yr Ysgol Sul, i ddechrau am 3.30 o'r gloch.

Boed i Dangnefedd ac Ewyllys Da, nodweddion y gwir Nadolig, ein cyrraedd i gyd o fewn y fro a'r ardal dros yr Wyl. Nadolig hapus a bendithiol inni i gyd.

Yn agor Ionawr!
Gwasanaeth NEWYDD
ar garreg eich drws

SEGONTIUM
CAR · VAN HIRE

Cerbydau Pickup, Luton, Cargo a Bysus Mini
Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir
UNED 5, STAD CIBYN
CAERNARFON Ffôn: 2013

ECO'R IFANC

EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL
Tachwedd 25, 1987

Beirniaid: Llên ac Adrodd: Mrs Wenna Williams; **Cerdd:** Miss Joan Hughes.
Cyfeilydd: Mrs Megan Roberts.
Arweinyddion: Mr Iwan Williams, Mr Dilwyn Roberts, Dafydd M Jones, Manon Llwyd Evans, Dylan E Jones, Mari Owen, Alison Edwards, Nicky Marzelos.
Cadw Marciau: Mr R.T. Jones, Mr S. Allsup, yn cael eu cynorthwyo gan Amlyn Llwyd Evans a Christopher Tilston.
Cynorthwyo'r Ysgrifennydd: Eurgain Evans ac Angharad Price.
Rheolwr y Llwyfan: Mr Dafydd Evans.

CYFARFOD Y PRYNHAWN

Unawd Genethod, Dosbarth 1: 1. Menna Williams, Eilian; 2. Hefina Jones, Eryri; 3. Delyth Price, Gwyrfai. **Adrodd Cymraeg, Dosb 1 a 2;** 1. Dyfan Siôn, Elidir; 2. Nia Gruffydd, Gwyrfai; Cydradd 3ydd. Sioned Owen, Elidir a Siôn Wyn, Eilian. **Unawd Piano, Dosb 1:** 1. Non Llywelyn Jones, Gwyrfai; 2. Dyfan Siôn, Elidir; 3. Menna Williams, Eilian. **Unawd Pres, Dosb 1:** 1. Eilir Williams, Eryri; 2. Siôn Wyn, Eilian; 3. Bryn C. Jones, Eryri. **Adrodd Saesneg, Dosb 5 a 6:** 1. Barley Massey, Eryri; 2. Lisa Rudkin, Gwyrfai; 3. Cheryl Edwards, Elidir. **Unawd Llinynol a chwythbrennau, Dosb 1,2 a 3:** 1. Lowri Williams, Gwyrfai; 2. Tammi Jones, Eryri; 3. Nia Gruffydd, Gwyrfai. **Adrodd Saesneg, Dosb 3 a 4:** 1. Trystan Thomas, Elidir; 2. Mandy Williams, Gwyrfai; 3. Wena Williams, Gwyrfai. **Deuawd Ysgafn:** 1. Meinir Williams a Gwenno Parri, Eryri ac Eilian; 2. Llinos a Non, Gwyrfai. **Unawd Piano, Dosb 2 a 3:** 1. Lynn Roberts, Elidir; 2. Wena Williams, Gwyrfai; 3. Lowri Angharad Roberts, Gwyrfai.

CYFARFOD Y NOS

Unawd Genethod, Dosb 4,5 a 6: 1. Ffion Jon Williams, Eryri; 2. Alison Edwards, Gwyrfai; 3. Catrin Gwyn, Eryri. **Adrodd Cymraeg, Dosb 3 a 4:** 1. Mandy Williams, Gwyrfai; 2. Wena Williams, Gwyrfai; 3. Euron Thomas, Eryri; 4. Lynn Roberts, Elidir. **Unawd Bechgyn, Dosb 1,2 a 3:** 1. Dyfed Jones, Eryri; 2. Eilir Williams, Eryri; 3. Gafyn Williams, Gwyrfai. **Parti Cyd-Adrodd:** 1. Eryri; 2. Eilian; 3. Elidir; 4. Gwyrfai. Unawd Offerynnol, Dosb 4,5 a 6: 1. Lisa Rudkin, Gwyrfai; Cydradd Ail. Olwen Jones, Elidir; Iwan Williams, Elidir a Dylan Williams, Gwyrfai. **Parti Bechgyn:** 1. Eryri; 2. Gwyrfai; 3.Eilian; 4. Elidir.
Enillydd y Gadair: Meinir D. Williams, Eryri; 2. Gwenllian Glyn Parri, Eryri; 3. Eurgain Haf Evans, Elidir; 4. Olwen Jones, Elidir.
Unawd Genethod, Blwyddyn 2 a 3: 1. Sioned Owen, Elidir;. Lucy Abbott, Elidir; Cydradd 3ydd. Lowri Angharad, Gwyrfai a Lynn Roberts, Elidir. **Adrodd Saesneg, Blwyddyn 1 a 2:** 1. Helen Hughes, Gwyfai; 2. Tammi Jones, Eryri; 3. Janice Thornton, Gwyrfai. **Grŵp Cân Ysgafn:** 1. Malu Awyr, Eilian, Eryri a Gwyrfai; 2. Eryri; 3. Eilian; 4. Eilidir ac Eilian; 5. Gwyrfai.

Côr Deulais: 1. Eryri; 2. Eilian; Cydradd 3ydd. Gwyrfai ac Elidir. **Unawd Cerdd Dant:** Cydradd 1af. Meinir Williams a Ffion Jon Williams, Eryri; 2. Alison Edwards, Gwyrfai; 3. Lowri Angharad Roberts, Gwyrfai.
Unawd Piano, Dosb 4,5 a 6: 1. Olwen Jones, Elidir; 2. Manon Evans, Eilian; 3. Alison Edwards, Gwyrfai. **Deuawd:** 1. Meinir D. Williams a Nia W, Jones, Eryri; Cydradd 3ydd. Sara Wood a Delyth Price, Elidir a Gwyrfai a Catrin Roberts ac Alison Edwards, Eilian a Gwyrfai. **Unawd Bechgyn, Dosb 4,5 a 6:** 1. Trystan Thomas, Elidir; 2. Dylan Pierce Williams, Eryri.
Sgets: 1. Eryri; 2. Elidir; 3. Gwyrfai. **Côr Cerdd Dant:** 1. Eryri; 2. Gwyrfai; 3. Elidir; 4. Eilian. **Adrodd Cymraeg, Dosb 5 a 6:** 1. Gwawr Owen, Elidir; 2. Meinir Williams, Eryri; Cydradd 3ydd: Jennifer Ellen, Elidir a Cheryl Edwards, Elidir.

Unawd Cân Werin:
1. Delyth Price, Gwyrfai; 2. Ffion Jon, Eryri; 3. Meinir williams, Eryri; 4. Alison Edwards, Gwyrfai.

Enillwyr mwyaf o farciau:
Dosbarth 1,2 a 3: Wena Williams, Gwyrfai a Delyth Price, Gwyrfai.
Dosbarth 4,5 a 6: Meinir Williams, Eryri.

Marciau Terfynol y Llwyfan

1. Eryri	226
2. Gwyrfai	184 a hanner
3. Elidir	160 a hanner
4. Eilian	90 a hanner

Marciau Terfynol yr Eisteddfod

1. Eryri	339
2. Elidir	312 a hanner
3. Gwyrfai	294
4. Eilian	238

Rhagor o luniau buddugwyr ar dudalen 18

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER TŶ A GARDD

CAERNARFON
Ffôn: 76506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

CORNEL Y PLANT IAU

Dyma ychydig o bethau i chi eu gwneud yn ystod y gwyliau. Cofiwch am y gystadleuaeth yn y rhifyn diwetha' o'r Eco. Stori am y syrcas.... Mae 'na wobr am y stori orau! Ac fe fyddwn ni'n enwi'r enillydd yn y rhifyn nesaf.... Felly, traed dani 'rŵan, ac anfonwch eich gwaith i 'Eco'r Ifanc', Pant Bryn Gwyn, Tan-y-Coed, Llanrug, cyn gynted ag y bo modd.

Gobeithio y cewch chi i gyd lond sach o anrhegion gan Siôn Corn. Cofiwch fod yn blant da – a chofiwch fynd i'r gwely yn gynnar noson cyn y Nadolig 'rŵan. Hwyl fawr i chi!!

Os dewch chi o hyd i 'jocs' da yn yr hen 'graceri' 'na, cofiwch eu hanfon i'r 'Gornel'. Fe gawn ni gornel 'jôcs' yn y rhifyn nesa'.

PÔS NADOLIG

1. Ym mhle ganwyd y Baban Iesu?
B – – – – H – –

2. Beth oedd enw'r angel a ddaeth at Mair?
G – – R – – –

3. Daeth llu o angylion i weld Pwy?
Y – U – – – L – – – –

4. Pwy ddaeth i weld yr Iesu ar gefn eu camelod?
Y – – E – – – N

5. Pa anrhegion a roddodd y doethion i'r Iesu?
a) – U – b) – – S c) M – –

Y PWDIN 'DOLIG

Mae'n siŵr y byddwch chi'n cael llond bol o bwdin Nadolig dros yr Ŵyl. Dyma bwdin i chi ei liwio yn hytrach na'i fwyta!!

Denfyddiwch y lliwiwu priodol:

1. Coch; 2. Brown; 3. Gwyn; 4. Melyn; 5. Gwyrdd.



LLYFR LLIWIO BEIBL I BAWB

Drwy gyfrwng nifer o luniau i'w lliwio caiff plant Cymru gyfle da i ymgyfarwyddo â gwahanol agweddau o hanes y Beibl wrth ddathlu pedwar canmlwyddiant Beibl yr Esgob William Morgan y flwyddyn nesaf.

Cyhoeddir y llyfr lliwio "Beibl i Bawb" — gan Bwyllgor Cyhoeddusrwydd Gŵyl Gerdd Dant, Pwllheli a'r Cylch 1988 gyda chydsyniad Pwyllgor Dathlu Cyfieithu'r Beibl. Un o'r lluniau ynddo yw clawr Beibl newydd 1988.

Mae yn y llyfr ddwsin o ddarluniau i'w lliwio, a gallai pob un fod yn sylfaen i olrhain peth o hanes y Beibl. Mae ynddo, er enghraifft, lun o William Morgan ei hunan, ei gartref yn y Wybrnant, ei gofgolofn ef a'i gynorthwywyr yn Llanelwy; Thomas Charles o'r Bala a Mari Jones, mynaich yn ysgrifennu, argraffydd yn argraffu, llun wyneb-ddalen Beibl 1588 ynghyd â nifer o faneri i gyfleu 'Beibl i bawb o bobl y byd'.

Yr arlunydd yw R. Derlwyn Jones, Pwllheli, Prifathro Ysgol Gynradd Edern, Llŷn, a'r argraffwyr, Gwasg Gwynedd, Caernarfon. Am bunt mae'n anrheg Nadolig delfrydol.

Os ydych am brynu copïau ewch i'ch siop lyfrau leol neu gysylltu ag Ysgol Cymerau, Pwllheli.
Dyfed Evans
Swyddog Cyhoeddusrwydd

Beibl i Bawb



1588 – 1988

Modlen y Gath

Ceisiwch chi ail greu y llun yma o Modlen. Edrychwch yn ofalus iawn ar y sgwariau, yna copïwch y llun. Wedi gorffen? Beth am ei liwio'n ofalus. Gyda llaw, cath goch ydy Modlen!, ac mae ganddi ruban melyn a chloch o amgylch ei gwddf hir.



CARTREF PRESWYL HENOED

BRON ERYRI

LLANBERIS, Ffôn: 870142 neu 870391

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I DRIGOLION Y CARTREF A DARLLENWYR ECO'R WYDDFA ODDI WRTH Y PERCHENNOG NEWYDD

MRS. EIRIAN MALI S.R.N. A'R HOLL STAFF

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Lifft at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y llofftydd
- Bath-medic

Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd

O FRO'R ECO I WLAD YR ADDEWID

gan Y Parch. Trefor Lewis

"Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd." Luc 2:11. Ie, i Fethlehem yr awn y tro hwn, priodol iawn a ninnau ar drothwy'r Nadolig.

Ystyr Bethlehem yw 'tŷ bara' (Hebraeg) neu'tŷ cig' (Aramaeg).

Saif y dref ar lethrau bryn 2,600 troedfedd uwchlaw'r môr, i'r de o Jerwsalem ac y mae tua 30,000 o bobl yn byw yno.

Y mae hanes Bethlehem yn dechrau ymhell yn ôl yn y gorffennol, yn nyddiau'r patriarchiaid a bod yn fanwl. Dywedir yn Genesis 35:16-18, bod Rachel wedi marw ar y ffordd i Effrata, neu Bethlehem. Yma y cyfarfu Ruth â Boas; yr oedd hi'n hen nain i Dafydd, a anwyd yma. I Fethlehem y daeth Samiwel i chwilio am frenin i Israel.

Ond y digwyddiad sydd wedi anfarwoli Bethlehem yw'r enedigaeth y cyfeiriodd Luc ati uchod, sef genedigaeth Iesu. Oherwydd ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd, aeth Joseff o Nasareth i Fethlehem i'w gofrestru yn ôl gorchymyn Awgwstws Cesar. Gyda Joseff yr oedd Mair, ei ddyweddi, yr hon oedd yn feichiog trwy weithred yr Ysbryd Glan.

Saith gant a hanner o flynyddoedd ynghynt yr oedd y proffwyd Meica wedi llefaru "A thithau, Bethlehem Effrata, er dy fod yn fychan ymhlith miloedd Jwda, eto ohonot ti y daw allan i mi un i fod yn llywydd yn Israel ..." Cyflawnwyd y broffwydoliaeth pan yr oedd Joseff a Mair ym Methlehem. Esgorodd Mair "ar ei mab cyntafanedig; a rhwymodd ef mewn dillad baban a'i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddynt yn y gwesty." Luc 2:7.

Ym Methlehem ceir nifer o dai hynafol iawn, wedi eu hadeiladu uwchben ogofau. Y mae'r ogofau hyn hefyd yn hen ac yn debyg i ogof y Geni. Arferwn feddwl mai mewn ystabl y ganwyd Iesu ond mae'n eithaf tebyg mai ogof oedd llety'r anifail.

Yn y flwyddyn 136 O.C. halogwyd Bethlehem ynghyd â Jerwsalem gan Hadrian; wedi gorchfygu'r ardal cyflwynodd ddelwau o dduwiau gan orchymyn y bobl i'w haddoli. Adeiladodd deml i Adonis, duw prydferthwch a chariad. Er halogi o'r safle yn y modd yma roedd rhywbeth rhagluniaethol yn y weithred hon. Drwy godi teml ar y safle sicrhawyd bod y man cysegredig hwn yn hysbys i'r dyfodol. Ac yn wir safodd y deml am ddwy ganrif hyd nes iddi gael ei dinistrio gan Helena, mam yr ymherawdwr Cwstenin. Wedi iddo gael troedigaeth yn 1313 cyhoeddodd Cwstenin mai Cristnogaeth fyddai crefydd swyddogol yr ymherodraeth Rufeinig.

Aeth Helena ar ymweliad â'r wlad a threfnodd bod tair eglwys yn cael eu hadeiladu, y gyntaf ar safle Calfaria a'r bedd, yr ail uwchben ogof y Geni a'r drydedd ar gopa Mynydd yr Olewydd. Er fod tair canrif wedi mynd ers genedigaeth Iesu nid oedd anhawster cyn belled ac yr oedd lleoli'r llety yn bod. Am nifer o flynyddoedd wedi geni Iesu byddai y wybodaeth am y lle yn cael ei drosglwyddo ar lafar, o dad i fab. Roedd y traddodiad Cristnogol yn cyfeirio at y llecyn yn rhan ddwyreiniol y dref islaw teml Hadrian. Cliriwyd y deml baganaidd ymaith a daethpwyd o hyd i'r ogof, ac adeiladwyd eglwys odidog wedi ei haddurno gyda mosèc, marmor a ffresco. Cyflwynodd Cwstenin arian ac aur i'r eglwys ynghyd â brithlenni. Roedd yn awyddus i'r eglwys fod yn gofgolofn i dduwioldeb ei fam, Helena.

Yn 529 gwrthryfelodd Samariaid Nablus. Gyda llaw yn Nablus y mae Ffynnon Jacob. Mewn canlyniad i'r brwydro difethwyd rhannau o Fethlehem a difrodwyd egwlys y Geni. Yn ddiweddar darganfuwyd y llawr mosèc o ddyddiau Cwstenin, wedi ei orchuddio gan ludw a theils wedi eu llosgi.

Yn ddiweddarach anfonodd Patriarch Jerwsalem neges at yr ymherawdwr Jwstinian yn ceisio ei gymorth i ail-adeiladu'r eglwys. Gorchmynnodd Jwstinian bod arian i'w sianelu yn ddiymdroi fel y gellid adeiladu eglwys fwy ei maint a llawer mwy godidog na'r un wreiddiol. Dywedir nad oedd Jwstinian yn rhyw fodlon ar y gwaith gorffenedig a chyhuddodd yr adeiladydd o bocedu cyfran o'r arian gan ei ddedfrydu i farwolaeth. Yr adeilad a godwyd yn nyddiau Jwstinian yw'r un a welir heddiw, bron i 1500 mlynedd yn ddiweddarach.

Eglwys y Geni ym Methlehem o'r tu allan.

Tu mewn i'r eglwys.

Yn y flwyddyn 614 daeth ymwelwyr o Bersia, ond nid i ryfeddu. Goresgynwyd y wlad, dinistriwyd pob eglwys a chwfaint, dros 300 medd rhai haneswyr. Pob eglwys, ddywedais i? Pob un ar wahan i un, sef elgwys y Geni ym Methlehem. Pam meddech chwi y gadawyd hon heb ei dinistrio?

Ar furiau'r eglwys yr oedd mosèc yn darlunio ymweliad y doethion o'r dwyrain, ac yn cyflwyno i'r Baban Iesu 'aur, thus a myrr'. Sylwodd yr ymwelwyr bod y gwŷr doeth yn gwisgo dillad nodweddiadol o'r Persiaid, ac felly, gadawsant yr eglwys heb ei darnio!

Erbyn cyfnod y Croesgadwyr oredd yr eglwys mewn cyflwr sobr ac aethpwyd ati i'w thrwsio. Ail osodwyd y lloriau marmor, gorchuddiwyd y tô o goed cedrwydd â phlwm, a gosodwyd mosèc godidog ar ran uchaf yr eglwys. Ar ddydd Nadolig 1100 coronwyd Baldwin yn yr eglwys – gwrthododd gymryd ei goroni â choron aur yn Jerwsalem oherwydd bod Iesu wedi ei goroni â choron ddrain yn y ddinas. Coronwyd ei ddilynnydd, Baldwin II yno yn 1109.

O'r tu allan ymddengys yr eglwys fel caer, digon garw yr olwg. Yn wreiddiol yr oedd tri phorth iddi, ond caewyd dau ohonynt. Gostyngwyd a chulhawyd y trydydd porth ddwywaith er rhwystro milwyr ar gefn ceffyl rhag mynd i'r eglwys. Rhaid yw i bawb sy'n dymuno mynediad blygu'n isel gan mai cyfyng ac isel iawn yw'r porth.

Y mae'r ogof ei hun o dan yr eglwys. Mesura 35 troedfedd wrth 10 troedfedd ac fe'i goleuir gan 48 o lampau olew. Ar un llaw y mae seren arian gyda'r arysgrif "Hic de Maria Virgine Jesus Christus Natus est" sy'n golygu "Yma y ganwyd Crist". Y mae'r seren yn ein hatgoffa o eiriau Mathew – "a dyma'r seren a welsant ar ei chyfodiad yn mynd o'u blaen hyd nes iddi ddod ac aros uwchlaw'r lle yr oedd plentyn." Mathew 2:9.

Rhydd Luc i ni hanes criw arall o bobl a ddaeth at y preseb sef y bugeiliaid. Pobl gyffredin oedd rhain yn cyflawni gwaith digon cyffredin sef gwylio'r praidd liw nos. Clywsant lais yn dweud wrthynt am fynd i Fethlehem i weld yr "un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb". Ond nid unrhyw faban mo hwn, eithr hwn "yw'r Meseia, yr Arglwydd." Nid yw'r efengylau yn dweud ymhle yn hollol yr oedd y bugeiliaid y noson honno ond dywed traddodiad wrthym bod y maes rhyw ddwy filltir tu allan i'r dref.

Bydd hanes y Geni yn cael ei adrodd a'i actio droeon yn ystod yr Ŵyl eleni. Bydd y bugeiliaid wedi eu gwisgo'n lliwgar mewn gŵn nos gyda thywel glan o gylch y pen. Mae'n siŵr mai glas fydd gwisg Mair a bydd Joseff yn edrych yn 'smart' gyda'i wallt wedi'i gribo'n daclus. Efallai bydd rhywun wedi sicrhau gwellt glan i greu awyrgylch y stabal. Fel dywed Gwenallt naturiol yw i Gristnogion brydferthu'r lleoedd sanctaidd.

"Ond nac anghofiwn yr ystabl gynt,
Tom yr anifeiliaid ar y gwellt;
Y muriau moel yn loyw gan oerni
A Mair yn crynu gan oerfel wrth fagu ei baban;
A thrwy'r twll yn y wal ni ddoi o'r wybren rewllyd
Ond goleuni Un seren i'r tywyllwch a'r tlodi."

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym musnes llefrith

EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: Llanberis 870563

Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

Ar Wib!
Philip Chapman a Rhodri Prys Jones
Gwasg Gomer £3.95
Hanes datblygiad beiciau, ceir a threnau, ac awgrym ynglŷn â sut y gallent edrych yn y dyfodol.

Dysgu Gyrru a Helyntion Eraill
Irma Chilton
Gwasg Gomer £2.50
Cyfrol o ysgrifau a fwriadwyd yn bennaf ar gyfer y rhai sydd wedi dysgu'r Gymraeg.

Ceffyl yr Ynys
Addasiad Peter Cumming ac Eirlys Jones
Gwasg Cambria £1.95
Hanes ceffyl dewr a fynnai ddychwelyd i'w gartref gwreiddiol ar ôl cael ei werthu.

Mr Bach a'r Car Swnllyd
Addasiad Richard Fowler a Gwilym Tudur
Gwasg Gomer £3.95
Stori i'r plant lleiaf.

Sasgwats
Dyfed Glyn
Y Lolfa £1.75
Nofel ar gyfer plant 9-11 oed.

Smot ar y Fferm
Smot yn mynd i'r Syrcas
Addasiad Eric Hill a Dilwen M Evans
Gwasg Gomer £3.50 yr un.
Dau lyfr newydd yng nghyfres Llyfrau Smot.

Rhosyn Rhudd
Lisabeth Huws
Cyhoeddiadau Mei £1.20
Y nofel ddiweddaraf yng Nghyfres y Fodrwy.

Loti
Meinir Pierce Jones
Gwasg Gomer £1.60
Stori i blant 7-10 oed.

Gwên yn y Garreg
Gwyneth V. Lilly
Gwasg Gomer £3.25
Nofel

Straeon i Blant
Addasiad Dawn Owen
Cymdeithas Genedlaethol Addysg Grefyddol £2.50
Cyfrol o straeon crefyddol i'w darllen i blant.

Doethion Aberdwli
Dafydd Parri
Y Lolfa £1.95
Straeon doniol a chwedlau anhygoel am bentref y ffyliaid.

Cyflwyno'r Cyfrifiadur
Brian Reffin Smith a J. Elwyn Hughes
Elfed £2.50
Cyflwyniad syml a lliwgar i rai'n dechrau trin cyfrifiaduron.

Dydi Pethau'n Gwella Dim
Gwenno Hywyn
Gwasg Gwynedd £1.75
Nofel ddilyniant i 'Tydi Bywyd yn Boen' — dyddiadur Delyth Haf.

Byrglars ac Ysgrifau Eraill
Dafydd Davies
Gwasg Gwynedd £2.00
Ysgrifau difyr am gymeriadau a digwyddiadau diddorol gan Ysgrifennydd Cymdeithas Gwartheg Duon.

Brychan Dir
Nansi Selwood
Gwasg Gwynedd £4.75
Nofel hanes o gyfnod y Rhyfel Cartref wedi ei lleoli ym Mrycheiniog.

Paid â Blino dy Fforwards
Lynn Davies
Gwasg Gwynedd £2.75
Ysgrifau hynod o ddoniol am gymeriadau rygbi. Cartwnau gan Elwyn Ioan.

Cribau Eryri
Rhiannon Davies Jones
Gwasg Gwynedd £6.25
Nofel seiliedig ar flynyddoedd olaf Llywelyn Fawr a phlentyndod y Llyw Olaf. Clawr caled.

CHWEDLAU RHYFEDDOL GWLAD GROEG

Ar 4 o Ragfyr bydd Gwasg Gomer yn cyhoeddi casgliad sylweddol a lliwgar o storïau clasurol i blant dan y teitl **Chwedlau Rhyfeddol Gwlad Groeg.**

Comisiynodd Cyngor y Celfyddydau Alwena Williams i addasu testun Michael Gibson ac adroddir y chwe stori ar hugain yn syml ac uniongyrchol mewn iaith rywiog, gadarn.

Ar ddechrau'r llyfr ceir siart yn dangos y duwiau a'r duwiesau, map o'r Hen Fyd um egluro lleoloiad y chwedlau a choeden achau teulu'r duwiau. Mae'r hanesion yn sicr o ddenu plant – storïau am anghenfilod rhyfeddol fel y Gorgon a'r Hydra, am deithiau anturus a brwydrau hirion.

Mae'r ddau lun ar hugain llawn lliw gan Giovanni Castelli yn ddramatig iawn ac yn llawn manylion am arfau, dillad a phensearnïaeth y cyfnod ac yn dangos anferthrwydd cyntefig yr anghenfilod. Mae nifer dda o luniau du a gwyn yn y llyfr hefyd.

Bu'n rhaid i blant Cymru aros yn hir am gasgliad cynhwysfawr a theilwng o'r hen chwedlau hyn sy'n rhan o'n hetifeddiaeth ni. Yn sicr bydd y gyfrol hon yn anhepgorol i bob ysgol a chartref – ac yn anrheg Nadolig ardderchog.

Chwedlau Rhyfeddol Gwlad Groeg
(Gwasg Gomer)
Lluniau gan Giovanni Castelli
Cyfaddasiad gan Alwena Williams
Y testun Saesneg gan Michael Gibson.
156tt. Pris: £6.95
Ceir gwybodaeth pellach oddi wrth Nan Griffiths (Swyddog Llenydiaeth).
Cyngor y Celfyddydau,
Stryd yr Amgueddfa,
Caerdydd.
(0222) 394711

"GAIR AM AIR"

Hanner cant o groeseiriau i'ch diddanu. Wedi eu llunio gan Tom Jones o Ddyffryn Nantlle – "rhai'n hawdd – eraill ychydig yn anoddach". Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau Mei am £1.50.



Ar 7 Rhagfyr cyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau y gyfrol ddiweddaraf yn y gyfres boblogaidd 'Bro a Bywyd'. Eisoes cyflwynwyd naw o'n prif lenorion drwy gyfrwng ffotograffau, a phleser arbennig yw cyhoeddi **Bro a Bywyd Saunders Lewis**, a gomisiynwyd gan Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

Mae hon yn gyfrol nodedig oherwydd fe'i golygwyd gan ferch y llenor, Mair Saunders, ac felly ceir gwedd bersonol a chwbl unigryw ar un o Gymry mawr yr ugeinfed ganrif. Direidi ac anwyldeb y gŵr encilgar hwn a gyfleir yn bennaf gan Mair Saunders yn y portread hwn o'i thad. Cofnodir yn y gyfrol hefyd hanes dechreuad Plaid Cymru, achos y Tân yn Llŷn a newyddiaduraeth Saunders Lewis yn ogystal â chefndir ei gampweithiau llenyddol.
Pris: £3.95.



"TOMOS Y TANC"

Yn1948 y cyhoeddwyd "The Three Railway Engines", sef y gyntaf o straeon y Parch W. Awdry am helyntion "y fath lein ddiddorol" lle'r oedd Edward, Gordon a Henri yn byw – a chartref Tomos y Tanc, a ddaeth mor boblogaidd gyda chenedlaethau o blant. Bu'n rhaid i ni ddisgwyl am bron i ddeugain mlynedd cyn cael y straeon hyn yn Gymraeg, ond o'r diwedd maent ar gael. Cynoeddir "Cyfres Tomos y Tanc" gan Gyhoeddiadau Mei, ac y mae'r testun Cymraeg wedi ei addasu gan Jini Owen a Brenda Wyn Jones. Mae lluniau lliw gwreiddiol C. Reginald Dalby ar bob tudalen. Anrhegion gwerth chweil i blant (o bob oed!) at y Nadolig – am ddim ond £1.75 yr un.

Y Bistro
Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871278
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Danny a Nerys Roberts a'r holl staff
CURIAD CALON CYMRU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn:
LLANBERIS 870232
BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

RHAGOR O ENILLWYR EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL

Sgets Eryri

Mena Williams (Unawd Dosbarth 1); Lowri Williams (Chwythbrennau Dosbarth 1,2 a 3) a Lyn Roberts (Piano Dosbarth 2 a 3).

Enillwyr mwyaf o farciau yn nosbarthiadau 1,2 a 3: Wena Williams a Delyth Price.

Adrodd Cymraeg Dosbarth 5 a 6: Gwawr Owen.

Mandy Williams: Adrodd Cymraeg Dosbarth 3 a 4.

Helen Hughes: Adrodd Saesneg Dosbarth 1 a 2.

Buddugwyr ar yr adrodd Saesneg: Barley Massey (Dosbarth 5 a 6) a Trystan Thomas (Dosbarth 3 a 4).

Gwawr Owen yn derbyn y cwpan ar ran Elidir, y tŷ a enillodd y mwyaf o farciau cyn dechrau'r gweithgareddau llwyfan.

Mr Elfyn Thomas, y Pennaeth, yn cyflwyno cwpan y tŷ buddugol i Gwenllian Parry a Dylan Edwin — Capteiniaid Eryri.

CYN BRIFATHRO LLEOL YN LLYWYDD ANRHYDEDDUS

Mae R.E. Jones yn un o chwech o bobl sydd wedi derbyn gwahoddiad i fod yn Llywydd Anrhydeddus Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau 1989.

Brodor o Langernyw ydyw a dderbyniodd addysg yn Ysgol Ramadeg Llanrwst a Choleg Prifysgol y Gogledd ym Mangor. Bu'n athro yn Nolgarrog a Thalybont ac yn brifathro yn Llanberis a Chwm Penmachno cyn ymddeol i Lanrwst. Dros y blynyddoedd gwnaeth gyfraniad helaeth i adloniant ysgafn Cymraeg, yn bennaf ar ffurf cerddi digri a rhaglenni ysgafn ar y radio. Ef oedd Cadeirydd Llên Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst ym 1951 oedd yn gyfrifol am lwyfannu ymryson y beirdd yn y Babell Lên am y tro cyntaf a hefyd hybu llunio'r Geiriadur Newydd. Cyfraniad pwysig arall o'i eiddo yw'r 'Llyfr Idiomau Cymraeg'.

Y Llywyddion Anrhydeddus eraill yw Richie Thomas, y tenor poblogaidd; yr arlunydd E. Meirion Roberts; Mari Roberts, chwaer y diweddar Brifardd Gwyndaf; Emrys Jones, Llangwm, a'r bardd - lenor - newyddiadurwr - ddarlledwr o Lanrwst, T. Glynne Davies.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Gwnewch Adduned Flwyddyn Newydd i ddod unwaith eto i gyfarfodydd y Gymdeithas Hanes

Ionawr 20fed, 1988 am 7.30 pm

Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun

Twm Elias

Y PORTHMYN

PEDWAR CANMLWYDDIANT CYFIEITHU'R BEIBL

Tybed a fyddai gan yr ysgolion yn eich ardal ddiddordeb mewn ymuno mewn cystadleuaeth bwysig?

Yn ystod 1988 mi fyddwn yn dathlu pedwar can mlwyddiant cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg – digwyddiad oedd yn drobwynt yn ein hanes.

Tybed a fyddai diddordeb yn ysgolion eich ardal i ymuno mewn cystadleuaeth i greu arddangosfa lluniau/dyluniau/arlunwaith i gofnodi'r achlysur arbennig hwn. Amgeir manylion am adrannau'r gystadleuaeth gyda'r llythyr hwn.

Mae'r Gwir Barchedig Roy Davies, Esgob Llandaf wedi cytuno'n garedig i agor yr arddangosfa a gynhelir rhwng 24 Chwefror a 9 Mawrth 1988. Gwahoddir yr enillwyr a'r goreuon i'r seremoni agoriadol ac fe delir, o fewn rheswm, eu treuliau gan raglen gylchgrawn ieuenctid y BBC, Bilidowcar, sydd hefyd yn cyd-drefnu'r digwyddiad.

Os sylwch chi ar fanylion y gystadleuaeth, erfynnir ar bawb i ddanfon gwbodaeth am eu bwriad i gystadlu cyn gynted â phosib, ac annogaf bawb i wneud hyn fel y gellir talu'r sywl dyladwy i bob cynnig.

Yr eiddoch yn gywir,
John Jenkins
Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus, Cymru.
BBC Cymru,
Canolfan y BBC,
Llandaf,
CAERDYDD.

MANYLION Y GYSTADLEUAETH

Y testun i'r holl gystadleuthau yw "William Morgan, ei fywyd a'i waith". Gall y gwaith fod yn Gymraeg neu yn Saesneg ac fe rennir y cynigion i'r dosbarthiadau oedran canlynol:

A. Ieuengaf – hyd at 7 oed
B. Cynradd – 7-11
C. Uwchradd Iau – 11-14
CH. Uwchradd Hŷn – 14 ymlaen

Dangosir y cynigion gorau a'r enillwyr yn yr Eglwys Gadeiriol. Dylid anfon yr holl gynigion at Mr J N Hughes, d/o Ystafell E3109, BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ, erbyn diwedd Ionawr 1988, gyda'r manylion canlynol:
Enw a chyfeiriad yr ysgol;
Enw'r ymgeisydd unigol neu new'r grŵp;
Rhif yr adran;
Dosbarth oedran.

Mae'n bosib casglu'r cynigion ar ôl yr arddangosfa.

Byddai o gymorth mawr i'r trefnwyr os byddai'r ysgolion sydd am ymgeisio yn gyrru gwybodaeth o rif y cynigion y maent am eu gyrru ym mhob dosbarth, erbyn Tachwedd 14eg.

GWAHANOL ADRANNAU'R GYSTADLEUAETH

1. Murlun – unrhyw gyfrwng;
2. Cywaith;
3. Cynllun stamp – ar bapur A4;
4. Cynllun medal/darn o arian – y cynllun i fod 6" mewn diamedr;
5. Cynllun ffenest liw – ar bapur A3. Ffenest o unrhyw ffurf;
6. Poster ar gyfer yr arddangosfa:
   a) A4 mewn du a gwyn;
   b) A3 mewn lliw.

Mae'n rhaid i bob poster gynnwys y manylion canlynol:
Y teitl:
Arddangosfa o Feibl William Morgan Bible Exhibition
Y dyddiad: Chwefror 24-9 Mawrth, 1988
Y lleoliad: Eglwys Gadeiriol, Llandaf.

7. Cynllun Bathodyn yr arddangosfa – y cynllun i fod o fewn cylch 2" mewn diamedr. Efallai yr adgynhyrchir y cynllun gorau er mwyn gwerthu a hysbysebu'r arddangosfa.
8. Cerdd Gymraeg neu Saesneg.
9. Traethawd-Ysgrif-Ysgrifennu Creadigol yn Gymraeg neu yn Saesneg;
10. Adran dylunio – dylunio a-neu wneud gwrthrych i ddathlu'r arddangosfa yn Eglwys Gadeiriol Llandaf.

Atodiad
DEINIOLEN

PEN-BLWYDD: Hoffa Miss Kathleen Jones, Prenteg ddymuno pen-blwydd hapus i Mrs Katie Jones, Foel Gron sy'n dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar yr 11eg o Ragfyr.

Hefyd Pen-blwydd Hapus i Mrs Morris Humphreys, Rhydfadog, hithau hefyd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar y 9fed o Ragfyr.

DIOLCH: Dymuna Mr Gwyn Parri, Cynefin ddiolch am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod, ac ar ôl ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

EUOGRWYDD

Y stori gan Gwenllian Parry a ddaeth yn ail yng Nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Fe'm daliwyd yng ngharchar di-ddrws ffasiwn. Erbyn hyn nid oes modd dianc; mae fel cyffur, rhaid i mi gael mwy a mwy ohono. Pob wythnos fe gaf ddilledyn sy'n newydd i ymuno â'r rhyfeddodau lliwgar eraill sy'n fy ngwneud yn goeden Nadolig ar droed. Daw'r protestwyr i geisio dymchwel y carchar: mam wrth geisio pigo fy nghydwybod a'm annog i lithro rhwng y bariau; cyd-ddisgyblion drwy weiddi eu geiriau annymunol a sisial chwerthin wrth i mi gerdded hiebio. Ond mae'r bariau'n rhy gryf a minnau'n rhy 'styfnig.

Wrth rodio strydoedd dinesig, y dillad deniadol yn ffenestri'r siopau sy'n dwyn fy sylw, a'm harian. Ond ni ddaw fy ieuenctid byth eto, felly rhaid ei fwynhau hyd at yr ymylon, hyd yn oed os yw'r pwrs yn wag. A rhan o'r mwynhad bythgofiadwy yma i mi yw gwisgo'n wahanol. Ie, lle braf a moethus yw fy ngharchar. Lle i aros ynddo.

Ond nid dillad yw'r unig elfen o ffasiwn. Mae dal i fyny gyda'r gerddoriaeth ddiweddaraf o'r byd pop ar brydiau mor anodd â dal i fyny gydag ysgyfarnog. Sawl noson bleserus a dreuliais yn gwrando ar storïau trist, ond swynol, y cantorion? A sawl gwaith wrth glywed miwsig y disgo yn hidlo allan o adeilad yr erfynais am gael bod yn y rhaeadr gwyllt o gerddoriaeth a meddwi yn ei swyn? Ond yn yr haf melysaf, mae'r gwenyn casaf. Heddiw mae prisiau recordiau yn codi bron mor aml â'r haul. A gyda nifer o gylchgronau ar weithgareddau'r cantorion pop yn ein temtio'n wythnosol, mae angen pwrs diwaelod y dyddiau hyn. Ond, fel arfer maent werth pob ceiniog. Ie, lle hyfryd a swynol yw fy ngharchar. Lle i aros ynddo.

Do, fe'm carcharwyd, fel nifer o rai eraill. Ac er mor braf yw fy ngharchar mae cwmwl o euogrwydd yn fy nilyn yn gyson. Er nad oes angen i mi gymryd sylw ohono, mae'n fy nilyn fel pe'n efaill i'm cysgod. Oherwydd mi wn fod fy rhieni, a'm hathrawon a'm cyfeillion yn fy nrwgdybio. Mae un elfen o ffasiwn sy'n rhaid ei wrthod, a mynd ymlaen i'w wrthod er gwaethaf dirmyg a chwerthin eraill. Un elfen y mae'n rhaid brwydro yn ei erbyn gyda holl egni'r corff. Cyffuriau.

Ydi, mae'n wir, mae'n hawdd ei reoli ar y cychwyn. Ond y tyfnaf y crwydrir i mewn i ogof y tywyllaf yr â. Ac ymhen hir a hwyr mae mor ddu â'r bedd, os nad yn y bedd. Llofruddion yw cyffuriau: os na lwyddant i ladd y corff fe fyddant yn siŵr o ladd yr ysbryd. Ni fodlonai'r drwgweithredwyr yma ar wagio'r pwrs yn unig. Byddant yn ogystal yn gwagio'r tŷ, y banc a'r corff o'i iechyd. Os mai dyma sydd yng ngharchar ffasiwn fe gariaf pob teclyn dinistriol er mwyn torri'r bariau; fe frwydraf er mwyn bod yn rhydd. Lle ffiaidd, hunllefus yw'r carchar. Lle rhaid dianc ohono.

RHEDYN A PHERYGL CANCR

Mynegodd Undeb Amaethwyr Cymru bryder yn dilyn adroddiadau fod cysylltid agos rhwng rhedyn a chancr. Gobaith yr Undeb yw derbyn addewid gan y Swyddfa Gymreig y cymerir camau arbennig yn fuan i rwystro rhedyn rhag ymledu yn yr ardaloedd mynyddig.

Dywedodd Ysgrifennydd Seneddol yr Undeb, Chris Gilmore, – "Yn dilyn adroddiadau diweddar sy'n cadarnhau'r gred fod cysylltiad agos rhwng rhedyn a chancr, yr ydym yn bryderus iawn oherwydd y perygl cynyddol i ffermwyr mynydd a'r ffaith na chymerwyd unrhyw gamau effeithiol i rwystro'i dyfiant yn yr ardaloedd mynyddig."

Nododd Mr Gilmore fod y toriadau o du'r llywodraeth yn ei chefnogaeth i ffermio mynydd yn golygu nad oedd y ffermwyr mynydd bellach yn gallu fforddio rheoli tyfiant rhedyn yr honnir ei fod yn ymledu cymaint â 126 milltir sgwâr bob blwyddyn. Disgwylir cyhoeddi adroddiad yn fuan gan gyn-ymchwilydd o Brifysgol Gogledd Cymru, Bangor, sy'n nodi'r ffaith i hadau rhedyn achosi cancr mewn arbrofion ar lygod; mae hefyd yn cynghori ffermwyr mynydd i wisgo mygydau yn ystod y tymor hadu o Orffennaf i Hydref.

Bellach awgrymir defnyddio dulliau biolegol i leihau'r 4,200 milltir sgwâr o dir sydd wedi ei orchuddio â rhedyn ym Mhrydain. Golyga hyn ryddhau gwyfynod De Affrica sydd â'u lindys yn ymborthi ar redyn. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon y gallai'r lindys lanio ar, a bwyta, cynydau eraill, er na wyddys eu bod yn ysglyfaethus.

"Yr unig ddewis effeithiol arall yw annog ffermwyr i rwystro ymlediad y rhedyn trwy wella ansawdd eu tir. Ein hofn yw y bydd polisiau dad-ddwysáu y Comisiwn Ewropeaidd yn cyfrannu at gynnydd sylweddol mewn rhedyn ar ein ffermydd, a rhaid gweithredu ar unwaith cyn i'r sefyllfa fynd dros ben llestri.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r Eco:

£10 Cyngor Cymuned Betws Garmon; Maureen Rhys; Mr Dei Morris, 8 Bro Deiniol, Deiniolen er cof am ei briod, Mrs E.M. Jones.
£5Mrs J.W. Williams, 23 Heol Elinor, Caernarfon.
£3 Mrs Annie Hughes, Cae Hywel, Penisarwaun.
£2 Mrs Percy Williams, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mr a Mrs Bryn Jones, Stryd Newydd, Deiniolen; Mr a Mrs Williams, 12 Ffordd Deiniol, Deiniolen; Mrs Beryl Thomas (Gerallt gynt) Llanrug.
£1 Gwyn ac Einir Williams, 21 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Susie Roberts, 23 Dol Eilian, Llanberis.

SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?
YDI HI'N SAFF I SIÔN CORN DDOD LAWR Y'CH SIMDDE CHI?!
Cysylltwch â Dave Wood
'INSULAFLUE'
Yr Arbenigwr ar leinio simneiau
FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
BANGOR
354646

CYFARCHION NADOLIG O FETHEL

Mae
Richard a Jean
TAFARN Y GORS BACH
LLANDDEINIOLEN
yn dymuno
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i
gwsmeriaid hen a newydd
Ar agor Fore a Nos Nadolig
Croeso cynnes i bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth
GWILYM A MEIRWEN JONES
SWYDDFA'R POST
BETHEL
Ffôn: Y Felinheli 670 261
BWYDYDD,
MELYSION, PAPURAU NEWYDD A FIDEOS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
I. MORRIS
CYFLENWYR PORTHIANT
DALGETY SPILLERS
Y FACHELL
LLANDDEINIOLEN
Ffôn: Y FELINHELI 670439

NADOLIG LLAWEN I BAWB
ODDI WRTH
GWILYM H. WILLIAMS
BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL
Ffôn Felinheli 670786
Diolch am eich cefnogaeth trwy fy mlwyddyn gyntaf yn y busnes.
Dymuniadau Gorau am y Flwyddyn Newydd

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL
ODDI WRTH BAWB YN
GAREJ MINFFORDD BETHEL
(T.R. EVANS)
Ffôn: Y Felinheli 670451



Dymuniadau gorau am 1988

ROVER • METRO • MAESTRO • MONTEGO • MINI

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
BILL ac EILEEN GRIFFITHS
Antiques
Ivy Cottage
BETHEL
Ffôn:
Y FELINHELI 670556
PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU
Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

TACSIS
BETHEL
UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER
Ffôn: (93) 670555
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

EUOGRWYDD

Y stori fuddugol yng Nghystadleuaeth y Gadair Eisteddfod Brynrefail — gan Meinir D. Williams

Llusgais yn araf, fel crwban drwy dar tuag adref, sef 13 Glanrafon, Llanrug, wedi diwrnod diflas arall yn yr ysgol. Ambell gic i dun a breuddwyd o sgorio i Gymru oedd uchafbwynt cerdded drwy Barc yr Hendre i mi, Catrin Elfyn Parri.

Damwain debyg i honno ar y cae hoci eto a byddwn yn rhoi'r ffidil yn y tô, ei rhoi hi i fyny am byth fel petai. Er hynny, fy hunanfalchder ac nid fy ffêr gafodd ei frifo. Merch o'r ail a'm bwriodd fel rhyw darw gwyllt gynddeiriog, reit debyg i hwnnw sydd gan *"Farmer Pugh, Beechwood Farm"*. Welais i mo'r ferch yn dod hyd yn oed gan fod pob gewyn o'm corff yn ddiffrwyth i bawb ond i Owain Arfon, ateb Ysgol Glanrafon i Matt Dillon. Llithrais yn swpyn hyblyg ar y llaid yng nghanol y cae.

Dyna lle'r oeddwn, Catrin Elfyn Parri, yn ddwy ar bymtheg mlwydd oed, heb ddwyn cusan gan neb (heblaw Taid a Nain), unwaith eto yn ffaelu ymddangos yn denau, wyneb-berffaith ac addoladwy o flaen rhes o fechgyn yr ysgol.

Camgymeriad oeddwn i yn ôl pawb. Canlyniad ail fis mêl yn y *'Goat'* ym Mlaenau Ffestiniog o bob man. Ond i hyn, bu canlyniad llawer gwaeth a fi oedd ar fai. Bu farw Mam, Olwen Ann Parri (Jones gynt) ar fy ngenedigaeth a fi oedd yr hoelen olaf yn ei harch fel petai. Ew, lawer gwaith dw'i wedi teimlo mor euog am ei marwolaeth, mor euog am ddwyn ei bywyd hapus gan roi bwrdwn ar Dad. Di-deimlad mae rhai yn fy ngalw i, yn ymddwyn fel pe na byddwn wedi cymryd bywyd; roedd rhai hyd yn oed yn siarad fel petawn i wedi cael erthyliad ac yn gwgu arnaf. Ond mae hi'n waeth arnaf heddiw a hithau'n ben-blwydd marwolaeth Mam.

Wel dyna ddigon o siarad dwys, di-bwrpas ar fy rhan i. Esboniad i'm problem gan Huw, fy mrawd, oedd nad oedd hogia yn mynd am fy nheip i. Wedi'r cwbwl yr unig un a ddangosai ddiddordeb oedd Siôn drws nesa' a chan mai ond chwech oed oedd o roedd ei holl fryd ar fy set Lego,

Pam? Bob tro y byddai "Miss" ar y sin y byddai bechgyn yn troi i ffwrdd neu pan oeddwn yn gofyn i un ddawnsio â mi eu bod wedi blino gormod am y pum munud nesaf i hyd yn oed eistedd. Tyngai Lowri, fy ffrind gorau, na wyddai hi'r ateb ond wedyn rhyw gymysgfa o bwyntiau da Marilyn Mornoe, Caryl Parry Jones a Madonna oedd Lowri.

Agorais y drws cefn i'r arogl anghartrefol o ffrio pysgod. O na, dim *ffish a chips* – dyna i gyd roeddwn i eisiau. Cerddais i mewn i'r gegin i weld Fflur, fy llys-fam, yn plicio tatws. Suddodd fy nghalon i sawdl fy esgidiau hoci, ond cyn i mi gael protestio dim:

"Haia ... mae Siôn yn aros yn tŷ ni y penwythnos 'ma ... dim yn licio'r bwyd gwiwer 'ma ... felly *ffish a chips* amdani."

Doedd dim pwynt dadlau. Llyncais fy araith "Byw a bwyta'n iachus yn fy arddegau" a gorfodi fy hun i deimlo'n chwantus er mwyn distawrwydd a dihangfa o'r ddadl anorecsia nerfus a choesau brain.

Uchafbwynt nos Wener i mi, Catrin Elfyn Parri, oedd gêm o snap hefo Siôn a'i yrru i'r gwely. Roedd Lowri yn mynd, a'i choncwest ddiweddaraf, i'r sinema, Fflur i'w 'Merched y Wawr' a Dad yn y stydi yn gweithio ar ei brosiect ysgol nos.

Mae rhai pobl yn cael hedd mewn gwrando ar gerddoriaeth clasurol, eraill mewn cerdded neu lonciau, ond i mi does dim a all guro'r distawrwydd pan yn y gwely a hithau'n nosi. Yn y fan yma y byddaf i'n gweld Mam, yn siarad a gweddio â hi. Mae pob cysgod a feiddia ddod i'm llofft yn fy atgoffa o Mam, pob delwedd yn dangos ei llun, ei llun yn ifanc ac nid y fam honno tua diwedd ei hoes. Wrth gwrs, ni chyfarfûm i â Mam erioed ond mae'r cysgodion yn rhoi teimlad o bresenoldeb merch ifanc hardd a ddifethodd ei bywyd oherwydd ei blys i gael merch. Fi, ie, fi oedd y ferch honno a channwyll llygaid fy Mam a fyddwn byth. Y gannwyll fydd yn goleuo'r bywyd a adawodd hithau ar ôl.

Y bore canlynol, deffrowyd fi gan ddaeargryn yn taro f'ystafell, Siôn oedd yno yn ceisio cyrraedd y modelau nenfwd a hongiai ar linyn bregus o neilon.

"Siôn, dos o' 'ma!"

"Na!" meddai'n bendant gan wenu'n slei. Perswâd oedd yr unig ateb ac felly addewid i fynd â fo i'r Sŵ oedd canlyniad ymadawiad Siôn.

Roedd fy holl gorff yn anymwybodol wrth i ni gychwyn am y Sŵ a hynny i gyd am fod Siôn wedi mynnu sosej, wy a bacwn wedi'i ffrio i frecwast a "Catrin cael 'run peth".

Wedi cyrraedd y Sŵ dechreuais adrodd fy storiau chwech oed am anifeiliaid, ond yna gwelodd Siôn lygoden fechan a oedd newydd roi genedigaeth i nyth o lygod bach.

"Sut nath i o, Catrin?" meddai yntau mewn llais rhy aeddfed o'r hanner.

Ceisiais newid y sgwrs i Lego, bwyd, hufen iâ, a hyd yn oed nofio, er mwyn tynnu sylw'r bachgen ond doedd dim yn tycio. Mynnai gael gwybod am y llygoden ryfeddol honno. Yna rhoddodd y bychan waedd:

"Bethan, Bethan. Ma' Bethan yn ysgol fi!" meddai gan redeg at gorrach bach yr un maint ag o. Wel! cael fy ngadael gan fachgen chwe mlwydd oed ar ein 'dêt' cyntaf. Pa obaith oedd i mi?

Yna teimlwn bresenoldeb tu cefn i mi, ac yn wir yno safai Euros Roberts yn wên o glust i glust.

"Braidd yn ifanc i fod yn fam yn dwyt?"

Saethodd fy meddwl yn ôl at Mam. Teimlwn yn euog fy mod yn siarad â'r person hwn ond roedd rhyw fath o gryfder newydd yn cael gafael ynof. Roedd Mam yno gyda mi i'm cynghori a'm tywys ar y llwybr.

Beth bynnag, i dorri stori hir yn fyr cytunais i gyfarfod Euros yn y disgo am saith. Roedd bywyd yn berffaith.

Wrth gerdded am adref a Siôn yn fy nilyn fel ci at ei feistr, daeth teimlad o ryddhad drosof. Diflannodd peth o'm heuogrwydd y prynhawn hwnnw ac fe dalwn innau yn ôl i Mam er nad oedd dim byd mwy gwerthfawr na phris ei bywyd.

"Catrin" cwynfanodd fy nghymydog.

"Ie" ebe finnau ar gwmwl naw. "Ti'n gwybod y llygoden 'na de?....."

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

ADRAN YR URDD: Bu 102 o aelodau a phwyllgor yr Urdd yn gweld Sioe Jiw Jiw Jeifin Jenkins yn Theatr Gwynedd. Bu i bawb fwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Mae holl blant Adran yr Urdd ym Methel gan gynnwys rhai o Ysgol Brynrefail a Chaernarfon yn cymeryd rhan yn y Gwasanaeth Naw Llith a Charol sy'n cael ei drefnu gan Ferched y Wawr ar nos Sul 20fed o Ragfyr am 6 o'r gloch. Hoffem weld y plant yn y capel am 5.45 o'r gloch. Ni fydd rhaid rhoi gwsig yr Urdd. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Erfynnir am gefnogaeth y rhieni.

Bydd yr Urdd yn ail gychwyn ar ôl y Nadolig ar nos lau, Ionawr 7fed, 1987.

YR EISTEDDFOD: Nos Lun Tachwedd 30 cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor yr Eisteddfod yn y Neuadd i gloriannu Eisteddfod eleni ac i dderbyn mantolen ariannol gan y trysorydd. Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyntaf Pwyllgor Eisteddfod 1988 yn y Neuadd nos Fawrth, Mawrth 15ed.

LLONGYFARCHIADAU: i William A. Williams, Cefn Isaf ar gyrraedd ei benblwydd yn 18 oed ar Ragfyr 18 ag Anthony Owen, 23 Bro Rhos fydd yn dathlu ei ben blwydd ar Rhagfyr 19eg.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Rhagfyr 9fed yn Nhafarn y Rhos, ger Llangefni cafwyd cinio blynyddol y gangen. Roedd yr adloniant yng ngofal rhai alodau o'r pwyllgor. Dymunodd y Llywydd, Mrs Lynwen Morris yn dda i Mrs Glenys Griffiths sy'n mynd i'r ysbyty yr wythnos nesaf. Dymunodd Nadolig Llawen i bawb a'n hatgoffa am y Gwasanaeth Naw Llith a Charol ar Nos Sul 20fed o Ragfyr.

NANT PERIS

Gohebydd; Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion, 871327.

BEDYDD: Bore Sul, 29 o Dachwedd yn Eglwys Sant Peris, bedyddiwyd Robart John mab bach Sian ac Alan Williams gan y Rheithor Alun Hawkins.

DIOLCH: Hoffai Mr a Mrs Melfyn Pritchard, Llys Awel ddiolch i'w teulu a'i ffrindiau oll am y caredigrwydd a ddangoswyd i Alan tra yn yr Ysbyty yn Lerpwl a Gwynedd yn ddiweddar, diolch yn fawr i chwi i gyd.

Gobeithio fod Alan yn gwella ar ôl ei arhosiad yn ysbyty Gwynedd. Da hefyd yw gweld fod Karen Price wedi gwella ar ôl ei arhosiad hi yn ysbyty Llandudno.

Nadolig Llawen i holl drigolion y Nant.

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.

GADAEL: Gadawodd P.C. Alan Bevan a'r teulu y pentref i'w cartref newydd yn Rhos Isaf ar ôl saith mlynedd a hanner. Bu Mrs Megan Williams, Bryn Difyr (Megan Bound, Dolafon gynt) o gwmpas y pentref yn casglu arian, ac fe brynwyd cloc i'r teulu. Dymuniadau gorau y pentref iddynt.

DIOLCH: Dymuna Alan, Margaret a'r plant ddiolch i'w holl ffrindiau a chymdogion am yr anrheg ac hefyd am eu caredigrwydd a'u ffyddlondeb yn ystod eu hamser yn Tŷ'r Heddlu, Waunfawr.

YSGOL SUL: Daeth plant ysgolion Sul Capel Croesywaun a chapel Bethel at ei gilydd Dydd Sadwrn, Tachwedd 21ain i fwynhau HWYL HYDREF yng nghwmni Delyth Oswy, Swyddog Datblygu Cyngor yr Ysgolion Sul. Cafwyd Storïau o'r Beibl, caneuon a gemau. Diolch i bawb a gyfrannodd i wneud y diwrnod yn llwyddiant. Mae croeso i bawb yn yr Ysgol Sul – cynhelir ar bnawn Sul o 2–3 p.m. yng Nghapel Bethel, a Chapel Croesywaun.

PLAID CYMRU: Ffair Naldolig: Cafwyd noson hwyliog a llwyddiannus dros ben yn y Ganolfan ar y 27ain o Dachwedd. Bu nifer dda o bobol yn heidio o gwmpas y stondinau amrywiol, ac fel arfer llwyddodd y stondin deisennau i ddenu sylw rheiny oedd am hel eu boliau. Rhoddodd y Stondin grefftau gyfle i bentrefwyr brynu anrhegion unigryw gan gynnyws hosannau ffelt i addurno'r goeden Nadolig, bagiau pot-pourri a lafant a bathodynnau lliwgar ar gyfer y plant. Daeth ymweliad Siôn Corn â llawenydd mawr i blant bach a mawr, ond heb os nac onibai, uchafbwynt y noson oedd yr arwerthiant o dan ofal medrus Mr Eurig Wyn. Llwyddodd i ddarbwyllo'r gwrandawyr i wario eu pres ar bob math o fargeinion, o dapiau fideo i sgidiau sglefrio. Diolch i bawb a gefnogodd y noson ac yn arbennig i'r rhai a roddodd eu hamser i'r paratoi.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb am fis Tachwedd: 1. Emrys Hughes, Treflan Isa; 2. John Huws, Argoed; 3. Haydn Jones, Rhandir Mwyn.

LLONGYFARCHIADAU: I Mr a Mrs T.A. Thomas, Gilfach, ar fod yn daid a nain; ganwyd merch Emma, i Glenys a Roger.

Ac i Megan Bound, Bryn Difyr, ar ei phriodas â Robin Williams, Blaen Ffridd.

CYDYMDEIMLWN: Â Mrs Eluned Coles, Bro Waun, ar ei phrofedigaeth o golli tad.

YN YR YSBYTY: Mae Mr Emlyn Davies, Bodwyn, ac wedi derbyn triniaeth llaw feddygol. Anfonwn ein cofion ato a'n dymuniadau gorau am wellhad buan iawn. Ein dymuniadau gorau a anfonwn hefyd at Mrs Glenys Williams, Plas Glyn Afon, sydd unwaith eto yn wael yn yr ysbyty.

ADREF O'R YSBYTY: Da yw croesawu gartref o'r ysbyty Mrs Eluned Jones, Lynfod, Mrs Rose Ann Hughes, Tref Eilian, Mrs Maria Williams, Bro Waun, a Mrs Betty Hughes i'w chartref newydd yn Nhref Eilian. Gobeithiwn y byddent yn parhau i wella a dymunwn Nadolig Llawen iawn iddynt a blwyddyn Newydd Dda, ac i bawb o'r pentref. (Diolch am gefnogaeth dda i'r Eco yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.)

YR URDD: Bydd cyfarfodydd yr Urdd yn dod i ben am y tymor yma gyda Noson o Ganu Carolau yng nghwmni Dafydd Iwan a phlant yr Urdd yn y Ganolfan, nos Fercher Rhagfyr 9ed. Gwneir casgliad tuag at gronfa Gavin Taylor. Bydd yr Urdd yn ail ddechrau nos Fercher, Ionawr 6ed. Pob lwc i Kristy Jones a fydd yn cynrychioli adran Waunfawr yn y Cystadlaethau Nofio Cenedlaethol ym Mangor ar Ionawr 16eg.

Bydd 'Bws y Pantomeim' yn gadael y Ganolfan am 6.00 o'r gloch, nos Fercher, Rhagfyr 30ain.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd: 1. £40 Mavis Allen, Pen y Bont; 2. £25 J.W. Griffith, Swyddfa'r Post; 3. £10 Peter Roscoe, Tŷ Ni.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr yn y Ganolfan nos Iau, Hydref 29. Nid oedd Mrs Alma Jones yn bresennol a'r llywydd oedd Mrs Margaret Owen. Treuliwyd noson ddifyr gyda sgwrs ddiddorol a sleidiau'n dangos Antur Waunfawr gan Mr Hywel Evans. Diolchwyd iddo gan Mrs Gillian Wyn. Da oedd clywed fod Mrs Bet Hughes yn gwella. Llongyfarchwyd Mrs Iris Owen ar enedigaeth mab, a Mrs K.M. Jones ar ei hymddeoliad yn ddiweddar. Enillodd Cangen Waunfawr gwpan yng nghystadleuaeth Rhanbarth Arfon am wneud Llyfr Lloffion. Trefnwyd y llyfr gan Mrs Cadi Jones, Mrs Mary Vaughan Jones a Mrs Glenys Williams. Rhoddwyd y raffl gan Doris Roberts, a'r enillydd oedd Mrs Gwyneth Griffith.

Cynhaliwyd cinio Nadolig Merched y Wawr nos Iau, Tachwedd 26, yng Ngwesty Victoria Llanberis. Cafwyd noson ddifyr iawn. Paratowyd yr adloniant gan Mrs Alma Jones a Mrs Heulwen Huws.

Y BEIBL CYMRAEG NEWYDD

Y flwyddyn nesaf, i ddathlu Pedwarcanmlwyddiant Beibl Cymraeg William Morgan, cyhoeddir Y Beibl Cymraeg Newydd, cyfieithiad newydd o'r Beibl cyflawn i Gymraeg cyfoes. Bydd y gwaith tra phwysig hwn, a gyhoeddir gan Gymdeithas y Beibl ar Ddydd Gŵyl Ddewi (Mawrth 1, 1988), o werth mawr i'r Eglwys yn ei chenhadaeth ac i bawb sy'n ymwneud ag addysg grefyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Y mae Y Beibl Cymraeg Newydd yn seiliedig ar y testunau Hebraeg, Aramaeg a Groeg diweddaraf a chywiraf sydd ar gael, a chymerodd y gwaith chwe mlynedd ar hugain i'w gwblhau. Y mae'n cynnwys argraffiadau diwygiedig o'r Testament Newydd a'r Salmau, a gyhoeddwyd eisoes, y naill yn 1975 ar llall yn 1979. Cyflwynir ystyr y testunau gwreiddiol mewn Cymraeg rhywiog, naturiol sy'n ymdebygu o ran arddull i'r corff sylweddol o lenydiaeth dda, yn farddoniaeth a rhydiaith, sydd wedi ei ysgrifennu yn Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif. Y mae Y Beibl Cymraeg newydd yn addas i'w ddarllen mewn addoliad cyhoeddus yn ogystal â chan ddarllenydd unigol, ond ni fwriedir iddo ddisodli Beibl William Morgan. Yn hytrach, gellir ei ddefnyddio'n gyfochrog â'i ragflaenydd clasurol yn eglwysi, capelau, ysgolion Sul, ysgolion, colegau, a chartrefi'r genedl.

Amrywiol Argraffiadau

Gellir dewis rhwng pump argraffiad amrywiol o Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Safonol gyda Chlawr Meddal am £6.50; Argraffiad Safonol gyda Chlawr Caled a llythrennau aur am £7.95; ac Argraffiad Safonol gyda Chlawr Lledr du a llythrennau aur am £24.95. Bydd dau argraffiad hefyd o'r Beibl yn cynnwys yr Apocryffa: Argraffiad gyda Chlawr Caled a llythrennau arian am £9.95, ac Argraffiad gyda Chlawr Lledr du a llythrennau arian am £26.95. Gyda phob copi o bob argraffiad y mae'r Cyhoeddwyr yn rhoi copi rhad o Gynllun Tri Mis o Ddarlleniadau Beiblaidd. Bydd copïau ar gael i'w harchwilio o ddechrau Ionawr 1988 ymlaen.

Y mae Cymdeithas y Beibl yn cynnig cynllun disgownt arbennig i gynorthwyo eglwysi, ysgolion a chenadaethau i brynu cynifer o Feiblau ag y mae arnynt eu hangen – er enghraifft, gellir cael disgownt o 25 y cant ar archeb am dros 100 o gopïau o Y Beibl Cymraeg Newydd.

Y mae Y Beibl Cymraeg Newydd yn ffrwyth chwarter canrif o weithgarwch ar ran Cydbwyllgor cyfieithu'r Beibl ir Gymraeg. Heblaw'r panelau o ysgolheigion beiblaidd a benodwyd gan y Cydbwyllgor i baratoi'r cyfieithiad, bu cynrychiolwyr amrywiaeth eang o enwadau trwy Gymru yn cydweithio'n llawn yn y fentr. Cynrychiolwyd yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys Fethodistaidd, Undeb Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, yr Eglwys Gatholig Rufeinig, ynghyd â Chyngor Eglwysi Cymru a Chymdetihas y Beibl. Canlyniad y cwbl yw fersiwn cwbl ecwmenaidd o'r Beibl, ac y mae pawb a gafodd ran yn y gwaith o'i gynhyrchu yn gobeithio y bydd y fersiwn newydd hwn o'r Beibl Cymraeg yn ennyn diddordeb newydd mewn darllen ac astudio'r Ysgrythurau yn y Gymru gyfoes.

Am fanylion pellach cysylltwch â: Denise McEvoy, Adran Cyfathrebu, Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, SWINDON SN5 7DG. Rhif Ffôn: Swindon (0793) 617381.

CARPEDI GLÂN!
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer diweddaraf, sydd ar gael.
Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Mae
LLEUFER a NELMA PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR
yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

MICHAEL A RAILI BURTON
LLYTHYRDY BETWS GARMON
Ffôn: Waunfawr 233
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Gwesty
PLAS-Y-COED
Ffôn Waunfawr 284
TŶ RHYDD – TRWYDDED LLAWN
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Tessa Lyons a'r staff.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
EMRYS OWEN
PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)
• Offer amaethyddol o bob math
• Haearn addurn ar gyfer y tŷ
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 253

NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth bawb
ym

MODURDY
Whiteways
WAUNFAWR

BYSIAU I'W LLOGI
Ffôn: Waunfawr 226

GERAINT OWEN

Gosodwr Carpedi
(A phob math o loriau)

Cil-y-mynydd
Waunfawr
Rhif ffôn:
Waunfawr 552

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth: Mr a Mrs Owen

CYFARCHION NADOLIG
WAUNFAWR A BETWS GARMON

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
oddi wrth

Huw ac Eirlys Griffith

Llythyrdy WAUNFAWR

Bwydydd, Ffrwythau,
Papurau newydd a
Llysiau Ffres
Ffôn: Waunfawr 651

Mae
Barbara,
Gwyn
a Hazel

SIOP CHIPS
WAUNFAWR
Ffôn: 683
yn dymuno diolch i
bawb a'u cefnogodd
trwy gydol
y flwyddyn
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i
bawb yn y pentref

SFP

SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL
WAUNFAWR Ffôn 235

Offer Diffodd Tân – Masnachol ac i'r Cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân
Offer canfod mwg ar gyfer y cartref
Hyn oll, a llawer mwy i'w weld yn ein siop

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH DAVID A PETER GREASLEY

EVAN DAVIES
Gwerthwr Glo

Ffôn: WAUNFAWR 341

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD GYNNES
I'N CWSMERIAID I GYD !

SMITHY GARAGE
WAUNFAWR 518
(W.M. CATT)

GWASANAETH
GLANHAU METAL
EFO PEIRIANT
ARBENNIG e.e.
Olwynion
Alwminiwm, Injans
Beiciau Modur ac ati

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

HUMPHREY ROBERTS A'I FEIBION
CLUDWYR
Rhosgoch,
WAUNFAWR
Ffôn: 313
a
Stâd Cibyn,
CAERNARFON
Ffôn : 5950

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH
DEULU

YSTORFA TŶ NEWYDD
WAUNFAWR 594

Bwydydd, Melysion, Ffrwythau
a Phapurau Newydd

a'r SIOP BAENT

Diolch am eich
cefnogaeth drwy'r
flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i
bawb oddi wrth

DAVID ac YVONNE BEECH
Contractwyr Adeiladu
Rose Mount,
Waunfawr
Ffôn: 425



CYFARCHION NADOLIG O BENISARWAUN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

Aled Jones

Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio

4 Bryn Eglwys Penisarwaun

Ffôn: Llanberis 871047

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Pat Owen a phawb yn

SIOP GRON

PENISARWAUN

A SWYDDFA'R POST

Ffôn: Llanberis 871272

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Am waith PEINTIO, ADDURNO a mân atgyweirio oddi mewn neu tu allan am bris rhesymol cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd i chwi oll

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

TACSIS WEBB

22 BRYNTIRION PENISARWAUN

Ffôn: Llanberis 870145

Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Gwaith Contract

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

ADRAN BENTREF YR URDD: Tachwedd 23ain, Nos Lun, aeth rhai o'r aelodau i ymweld â changen yr Urdd Penllyn a chafwyd llawer gêm ddiddorol. Diolchodd Dyfed Jones am y croeso.

Tachwedd 24ain: Daeth Mr Richard Jones o Fethel atom a bu'r plant yn gwrando'n astud arno'n dweud stori wrthynt. Diolchodd Eryl Jones iddo.

Rhagfyr 1af: Miss Phyllis Ellis ddaeth atom a bu'n dangos i'r plant sut i wneud addurniadau ar gyfer y Nadolig. Cafodd pawb gyfle i wneud rhai i fynd adref. Nia Lewis a ddiolchodd.

Rhagfyr 8ed. Daeth Seindorf leuenctid Deiniolen i'n diddori yn Neuadd yr Eglwys. Daeth rhai aelodau o'r cyhoedd atom i ymuno yn y wledd a chawsant baned o de a gwnaethpwyd casgliad tuag at y Seindorf.

Rydym wedi gwneud trefniadau i fynd â'r plant i weld y Sioe Nadolig "Codi Stêm" yn Theatr Gwynedd, Nos Fawrth, Rhagfyr 29ain. Bydd y bws yn cychwyn o 'King' am 6.15 p.m.

Byddwn yn ail-ddechrau gweithgareddau tymor nesaf, Nos Fawrth, Ionawr 5ed am 6.00 p.m.

CLWB CANT: Tachwedd 28ain am 6.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys cafwyd Fideo o'r Barbaciw a Charnifal '87 yng ngofal Eurwyn Jones a David Philips. Diolchwn i'r ddau am wneud yr holl drefniadau ac am sicrhau noson hwyliog a diddorol. Enillydd y raffl oedd Eurwyn Jones.

Yn ystod y noson cychwynwyd casgliad gan Mrs Mary Davies, at Blant Mewn Angen – casglwyd £25. Diolchir i bawb a gyfrannodd.

Rhagfyr 18fed yn Neuadd yr Eglwys cynhelir, "Noson o Garolau" yng ngofal Arwel Jones. Bydd y drysau yn agored am 6.30 p.m., bydd pwnsh a mins pei, stondin deisennau a raffl. Mynediad 50c i Oedolion 20c i blant wrth y drws. Bydd y noson hon ar y cyd â Phwyllgor Eisteddfod Bentref.

Fe dynnir Clwb Cant y Neuadd ar y noson. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y gwahanol weithgareddau yn ystod y flwyddyn 1987. Fe adnewyddir aelodaeth Clwb Cant yn Ionawr, £6 am flwyddyn neu 50c y mis. Diolch i bawb a gefnogodd y Clwb. Mae croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb mewn neuadd i'r pentref ymaelodi â'r Clwb Cant.

Cynhelir **Pwyllgor Cyhoeddus** , Nos Lun Ionawr 11eg 1988 am 7.00 p.m. yn Neuadd yr Eglwys. Croeso cynnes i bawb.

CROESO: Croesawn Mr Idris Humphreys, o'r Waunfawr i'n plith. Y mae wedi ymgartrefu yn 26 Bryntirion. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith Mr Humphreys.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad iechyd buan i Mr Clifford Richardson, Mr Wil Jones, Arvonia Jones a Mrs K Jones, 9 Bryntirion wedi triniaeth yn yr ysbyty. Gobeithio y bydd pawb sy'n teimlo'n sâl yn gwella ar gyfer dathlu'r Nadolig.

LLONGYFARCHIADAU: Rhagfyr 2il dathlodd un o ffyddloniaid Ffug Eisteddfod yr Eco, sef Mrs Percy Williams, 3 Llys y Gwynt ei phenblwydd yn 80ain oed. Mae'n dal yn nwyfus ei hysbryd ac yn gefnogwr brwd i bob gweithgaredd yn y pentref. Llongyfarchiadau calonnog i chi Mrs Williams. Rhagfyr 11eg, dathlodd Mrs M Jane Roberts, 5 Llys y Gwynt un arall ysgafn ei throed a pharod ei sgwrs ei phenbwlydd yn 87 oed. Pob bendith i chwithau Mrs Roberts.

Mrs Percy Williams — Llongyfarchiadau iddi.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Annie Hughes a'r teulu, Tŷ Newydd, Cae Hywel, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddagnoswyd atynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolchir hefyd am y cymorth a dderbyniwyd gan lawer, sy'n rhy niferus i'w henwi, drwy'r amser y bu Evan yn wael.

Carai Mrs A Hughes, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w pherthnasau a'i ffrindiau oll, gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Diolch i Margaret Williams, Carrog, am drefnu'r bws i fynd i Gaer, Sadwrn, Tachwedd 28ain.

Dymuna Mrs Percy Williams ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 80 oed.

YSGOL FEITHRIN: Erbyn daw'r rhifyn hwn o'r Eco allan bydd ein tymor yn yr Ysgol Feithrin wedi dod i ben a'r plant bach wedi cael eu parti Nadolig a Sion Corn wedi galw heibio inni hefyd, gobeithio.

Ni fyddwn yn cyfarfod yn ystod misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth ond byddwn yn ail ddechrau yn union ar ôl gwyliau'r Pasg.

Gobeithio y daw mwy o blant bach a'u mamau neu warchodwyr at ei gilydd eto i gyd-chwarae ym mis Ebrill.

CAPEL BOSRA: Cynhelir Parti Nadolig y plant ar y cyd â phlant yr Eglwys, yn Neuadd yr Eglwys, bnawn Llun, Rhagfyr 21ain am 3.00 p.m. – 5.00 p.m. Bydd Siôn Corn yn siŵr o alw i weld y plant.

YSGOL TAN-Y-COED: Dyma'r ail barti i ddosbarth y babanod fwynhau yng nghwmniei gilydd yn ddiweddar – gwledd briodas oedd y gyntaf ac yn dilyn o hynny dyma fwynhau parti penblwydd "go iawn".

EGLWYS SANTES HELEN: Gwasanaethau ar gyfer y Nadolig

Bore Sul Rhagfyr 20ed cynhelir gwasanaeth y plant am 10.30 a.m. a Naw Llith a Charol am 4.30 p.m.

Noswyl y Nadolig 24ain am 11.30 p.m. gweinyddir y Cymun Bendigaid. Croeso cynnes i bawb.

Gyrfa Chwist Boteli. Cynhelir Gyrfa Chwist Boteli yn Neuadd yr Eglwys, Nos Fawrth, 29 Rhagfyr am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

DYWEDDÏAD: Llongyfarchiadau i

Dylan Williams, Carrog, a Marie Cropper, Llanrug ar eu dyweddïad Tachwedd 28ain. Dymuna'r ddau ddiolch am y cardiau a'r anrhegion.

YSGOL SUL BOSRA: Cynhelir gwasanaeth Nadolig i'r plant yng ngofal Delyth Oswy fore Sul, Rhagfyr 20fed am 10.00 a.m. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL SUL SANTES HELEN: Fore Sul 13eg Rhagfyr roedd 15 o blant yn bresennol yn yr Ysgol Sul ac arweiniodd yr athrawes, Mrs Mary Davies, y plant mewn gweddi i ddiolch am ein hiechyd ac i gofio am blant bach llai ffodus na ni. Gweddiwyd yn arbennig dros Gareth Roberts o Lanrug, cefnder Huw, Ynyr ac Eurig, sydd yn Ysbyty Alderhay yn Lerpwl. Penderfynwyd rhoi'r casgliad tuag at yr ysbyty honno. Cyflwynwyd rhodd o £5 ar ran yr Ysgol Sul. Diolch yn fawr iawn i Auntie Mary.

PARTI

Babanod Ysgol Tan-y-Coed Penisarwaun yn mwynhau parti yn yr ysgol yn ddiweddar.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

BEDYDD: Yn ystod yr oedfa fore Sul, Tachwedd 22ain yng Nghapel M.C. Brynrefail, bedyddiwyd Andrea Elen, merch fach Mr a Mrs Gwyn Williams, Llanrug ac wyres i Mr a Mrs Glyn Owen, Tros yr Afon. Gweinyddiwyd gan y Gweinidog y Parch John Morris.

FFAIR NADOLIG: Cynhaliwyd Ffair Nadolig Capel M.C. Brynrefail yn y Festri, Nos Iau, Rhagfyr 3ydd. Croesawyd y gŵr gwadd, sef Mr Rol Williams, Waunfawr gan y Gweinidog, i agor y noson. 'Roedd ei gyfarchiad yn llawn atgofion am fore oes ym Mrynrefail yn arbennig felly yr holl weithgareddau y bu'n cymryd rhan ynddynt yn y Festri. Cafwyd noson hwyliog mewn cymdeithas hapus tra'n gwario a phrofi o'r gwahanol atyniadau.

Enillwyr y gwobrau oedd: Helfa Drysor – Mrs Gwyneth Roberts, Llys Iolen; Dartiau – Mr Ken Jones, Cae Coch; Llinell goll – 1. Mr Gwyn Hefin Jones; 2. Miss Lowri P. Roberts; 3. (cydradd) Mrs Ifanwy Jones a Mr Alwyn Jones (paratowyd y gystadleuaeth a'i beirniadu gan Mr Rol Williams); Cyfrif Pys mewn potel – Mrs Hannah J. Jones, 7 Trem Eilian; Pwysau Cracer – Mr Alwyn Jones, Racca; Hamper – Mrs Mair Williams, Bwlch, Cwmyglo; Bocs Ffrwythau – Mrs Helen Roberts, Llwyncoed Bach; Teisen Nadolig – Mrs June Wright; Bocs Bisgedi – Mrs Margaret Williams, Nant Forgan, Cwmyglo; Potel win – Mrs Sylvia Williams, Bwlch, Cwmyglo; Bocs siocled – Mark Owen, Glanffynnon, Llanrug.

Mae ein diolch yn arbennig i swyddogion y Pwyllgor Mrs Jennie Roberts, Mrs Ifanwy Jones, Mrs Carol Houston a Mrs Dilys Morris, a'r holl ferched ddaeth ynghyd i drefnu'r noson ac a wnaeth eu rhan yn ysotd y ffair (heb anghofio'r meibion!), am eu cefnogaeth, y plant a'r ieuenctid a'r oedolion am eu rhoddion a'u cyfraniadau. Bydd yr elw o £217.70 yn mynd yn rhannol ar yr Eglwys ac Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r Sahel.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Fawrth, Rhagfyr 8ed cymerwyd rhan gan nifer o aelodau'r gangen mewn datganiad o garolau a darlleniadau yng Ngŵyl Garolau Sefydliad y Merched a gynhaliwyd yng Nghapel Croesywaun, Waunfawr.

O EISTEDDFOD SYR HUGH ...

CYSTADLEUAETH Y GADAIR DOSABRTH 3–4

Rebecca Brown o'r Waunfawr ddaeth yn drydydd yng ngystadleuaeth y gadair i ddosbarthiadau 3 a 4. Y dasg oedd sgwennu dwy stori:- "Nid yw'r Heddlu'n Amau fod Trosedd wedi ei chyflawni" a "Fi laddodd dad Leri".

"FI LADDODD TAD LERI"

'Tydach chi'n gwybod dim amdana' i, nac 'dach? Mae'n siŵr eich bod chi os ydach chi'n meddwl yn ôl tua blwyddyn. Ond na, fuasech chi ddim yn cofio 'chwaith. Waeth i chi gael gwybod ychydig amdana'i felly yntê?

Leusa Ffowc ydw i, wel Lisa Ffoulkes ar gofrestr y carchar yma, wrth gwrs ... dwi'n ddeunaw oed – bron yn bedair ar bymtheg, a dwi 'di bod yn fama ers chwe mis. Dim ond un Gymraes arall sydd yma – Marged Gruffydd, 'Stafell 731, yr ystafell drws nesaf i f'un i. Dwi'n ei chlywed hi rŵan, yn cerdded o gwmpas ei chell, yn taro yn erbyn y waliau ac yn crio ac yn gweiddi allan. Pump ar hugain ydi hi, mae hi wedi bod yma ers pedair blynedd – a dydi hi ddim hanner call erbyn hyn, ei meddwl wedi mynd, y graduras. Gobeithio nad fel 'na y bydda' i mewn tair blynedd. Fuaswn i ddim yn synnu. Fuaswn i ddim yn synnu os byddai'n waeth. Fuaswn i ddim yn synnu o gwbl.

O mi fuaswn i'n hoffi cael siarad efo rhywun. Ond tydwi'n deall neb ond Marged. Does gen i fawr o Saesneg. Mae hi'n amhosib cynnal sgwrs efo Marged, dim ond rhyw fyngial siarad fydd honno. Mae'r lle yma'n fy lladd i.

O, mi ddeudis i beth ffôl bum mlynedd yn ôl. Dweud y gwnes i y byddwn i'n hoffi mynd i'r carchar dros yr iaith. D'wn i ddim beth oedd ar fy mhen i'n dweud peth mor ynfyd. O oedd, roedd Yr Iaith yn bwysig iawn imi bum mlynedd yn ôl. Rhag ofn i chi gamgymryd – ddim yma dros yr iaith ydw i, tydw i ddim yma **dros** ddim byd a dweud y gwir. Mae rhai ohonoch chi'n gwybod beth wnês i am wn i. Twt twtio wnaethoch chi mae'n siŵr, ysgwyd eich pen yn siomedig dros eich Corn Flakes a gwneud sylw bach ar y "genhedlaeth ifanc".

Tydach chi ddim yn dallt, nacydach? Nacydach? A wnewch chi ddim ar ôl darllen hwn 'chwaith. Ond mewn gwirionedd, fedra' i ddim disgwyl i chi ddallt, achos pobol ydach chi. Dydi pobol ddim yn dallt. Ddalltodd neb f'ochr i o'r stori 'rioed.

Mi rydw i'n caru un person. Mae hi'n anodd caru pobol pan rydych chi yn fan hyn. 'Tydw i ddim yn meddwl fod Marged yn caru 'run adyn byw. Pan fydda'i yn fy ngwely, mi fydda i'n gwasgu'r wybodaeth yna ata i, y wybodaeth 'mod i'n caru rhywun. Dyna'r unig hapusrwydd y bydda i'n ei gael – hapusrwydd wrth feddwl am Leri. Leri ydi fy chwaer fach i. Pump oed ydi hi. Hanner chwaer ydi hi imi mewn gwirionedd, hogan fach mam a'i chariad ydi Leri, ond mi rydw i'n ei charu hi fwy na neb na dim.

Pan oeddwn i'n byw adref, mi fuaswn i'n chwarae gyda Leri pob cyfle a gawn i. Pob tro y byddai mam neu ei chariad yn fy nal i efo Leri, mi fyddwn i'n cael coblyn o gweir. Gwallt golau a llygaid mawr tywyll sydd gan Leri, mi fuaswn i'n gwneud rhywbeth i'w chael hi yma gyda mi. Mae hi'n fy ngharu i hefyd. Mi fydd y sicrwydd yna'n gysur imi ar hyd yr amser.

Does gan Leri ddim tad rŵan. Fy mai i ydi hynny. Ydach chi'n deall pam fy mod i yma rŵan? Fi laddodd tad Leri. Fi laddodd tad Leri. Fi laddodd tad Leri. Dyna'r unig ran o'r hanes yr ydych chi'n ei ddeall, dydach chi ddim yn deall pam fy mod i wedi lladd tad Leri, mae hynny oherwydd nad ydych chi'n gwybod pam y lleddais i o. O leiaf ar ôl darllen hwn mi fyddwch chi'n gwybod, hyd yn oed os nad ydych chi'n deall.

Fi laddodd tad Leri. Mi roedd o'n fy nghuro i am chwarae efo Leri. Mi roedd o'n fy nhreisio i. Pan oedd mam i ffwrdd roedd o'n meddwi ac wedyn yn fy nghuro i ac wedyn yn fy nhreisio i ac wedyn yn fy nghloi yn fy ystafell i grio. A fi laddodd tad Leri. Fi lladdodd o. Leri. Leri. Leri.

Leri. Mae Leri yn chwech oed rŵan – wedi dechrau yn yr ysgol ers blwyddyn. Dwi'n cofio bod yn chwech oed. Dwi'n cofio Dad yn gadael pan o'n i'n chwech oed. Falla y gwneith tad Leri adael rŵan, oherwydd ei bod hi'n chwech oed.

Ond fedr tad Leri ddim gadael, siŵr iawn. Rydw i'n anghofio hynny o hyd. Tydw i ddim yn cofio enw tad Leri. Mi rydw i'n cofio enw Dad. Gwilym oedd enw dad.

Mae Marged yn crio, rwy'n ei chlywed hi drwy'r wal yma.

"Mae'n iawn, Marged, paid a chrio."

Ond dydi hi ddim yn iawn, achos fy mod i wedi'i ladd o. Mae Marged wedi mynd o'i phwyll. Mi roddais i gyllell trwy'i galon o. Do, Leri, a chwerthin wrth weld y gwaed yn diferu o'i geg o, ac yntau'n syrthio ar y llawr. Yn farw. Yn farw, yn farw. Braf fuasai cael marw.

Ydi Leri yn gwybod? Ydi Leri yn gwybod fy mod i wedi'i ladd o? Ydi hi'n flin efo fi? Fydd hi'n gwrthod siarad â mi pan wela' i hi nesaf? Pan wela' i hi nesaf.

Ond mi rydw i yn falch fy mod i wedi'i ladd o. Ydw. Ydw. Ydw.

Rwyt ti'n meddwl fy mod i wedi mynd 'run fath a Marged yn dwyt? Wyt, siŵr iawn. Wel, dydw i ddim. Oherwydd tydw i ddim yn gorfod byw efo fi'n hun fel Marged.

Mae gen i raff yn fan hyn. Mi wnes i ei chuddio rhagddyn nhw. Mae yna fach ar y nenfwd, mae o i fod i ddal bwbl golau. Wrth sefyll ar y gwely mi fedra i ei gyrraedd o.

CEUNANT

Gohebydd: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)

GWELLHAD: Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mr Pritchard, Glasfryn, sydd gartref ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn; Caernarfon 2072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I BAWB

CYFARCHION
NADOLIG
CAEATHRO

LLETY
RESTAURANT
CAEATHRO
Ffôn
Caernarfon 4753
Diolch i bawb a'n cefnogodd yn ystod y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd i chwi oll

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
Oddi wrth
GWALIA
GARAGE
CAEATHRO

Ford
Ffôn:
CAERNARFON 3096
a 77295

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU: i Ann Wyn Hughes, Gwendraeth, Erw Wen, sydd wedi dod yn gyntaf trwy Gymru gyfan mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus. Da iawn chdi Ann.

CANU CAROLAU: Cynhelir y canu carolau o amgylch y goeden Nadolig nos Lun, Rhagfyr 21ain, gyda Band Llanrug yn ein harwain. Dewch yn llu.

SWPER NADOLIG: Bydd Swper Nadolig yn arbennig i blant y pentref yn cael ei gynnal yn y Festri Nos Sul, Rhagfyr 20fed ar ôl y gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.

CLWB GER-Y-TÂN: Cynhaliwyd swper Nadolig y Clwb yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Cafwyd noson bleserus dros ben, ac enillwyd y raffl gan Nia Jones, Bryn Eglwys. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 27ain, yn Nhŷ Mawr.

NADOLIG LLAWEN: Fel eich gohebydd lleol, dymunaf i chwi i gyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda, a diolchaf i chwi am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn.

Gwenno Huws o Gaeathro oedd bardd cadeiriol Eisteddfod Ysgol Syr Hugh Owen eleni. Dyma'r ddwy gerdd ar y testun "Aros."

AROS

Sychodd gwyrddni'r Sahel,
Cwympodd cymdeithas,
Crebachodd gwareiddiad,
Gorwedd yntau yn ddiymadferth dan ddinistr heulwen,
Yn swp llesmeiriol
Yn gwegian dan galedi.

Ei fol chwyddedig,
A'i lygaid coll mewn hafnau du,
Brathai'r pryfed ei wyneb.
Llygrodd y llwch ei gorff a'i enaid.
Cochni'r llwch a ddileodd iddo luniaeth
A ddysgir byth y dasg o rannu'r dorth?

Crina'r bwndel esgyrnog
Gan wywo'n drychineb araf.
Pallodd ei ynni.
Collodd y wefr o fyw.

Cyfandir o undonnedd prin
A noethni newyn yn realiti byw,
Ei enaid mewn adfyd
A'i fywyd yn ddim.

Ar y ffin rhwng goleuni a thywyllwch,
rhwng creulondeb a charedigrwydd,
rhwng byw a marw.

A gedwir yr addewid?
Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu
Canys hwy a fyddant feirwon.
Aros mae am dangnefedd enaid
ei wacter yn llawn
Wrth draed ei Greawdwr.

AROS

Collodd y fedwen ei dail
Gan adael drain.
Crebachodd yn oerni ei Gaeaf
Wrth siglo'n lluddedig
O ddodrefnyn i ddodrefnyn
Yng nghartre'r henoed.

Caeth i reolau'r goruwch
Yw'r pyped marwaidd.
Anheg yw gêm bywyd
A buddugoliaeth yn amhosibl
Casâ einioes a châr farwolaeth,
Pallodd y cariad, oerodd y cynhesrwydd,
Diffoddodd y fflam.

Rhydodd pob rhyfeddod yn ddiflastod annealladwy
Tra teyrnasa afrosgedd,
Ymdrech yw pob symudiad
Sy'n crefu am gwsg.
Rhith yw'r atgofion
A phoen yw'r presennol.
Y llymder a'r pydredd dreiddia i'w byd.
Uchelgais difrifol, uchafbwynt du,
Bwrn ydyw bywyd.

Gweddia am waredigaeth
Am agosrwydd yr amdo, nesâd yr elor,
Düwch y bedd.
Surodd bodolaeth, pydrodd pwrpas,
Oes yn araf dreio.

Collodd y fedwen ei dail
Gan adael drain
Trugaredd fuasai marw
Ond aros syd raid.

GALW DDOE I GOF

Mi rydw i yn cofio Nadolig 1913. Yr oeddan ni yn cael amser caled iawn. Nhad yn sâl o hyd, a byth yn medru cael doctor i drio'i fendio fo, ac felly dim pres yn dwad i mewn a phump o blant eisiau bwyd.

Y Nadolig yma mi oedd hi yn ddrwg, yn ddrwg iawn arnom ni. Dim bwyd na glo, heb sôn am goeden a phwdin Dolig. Amser gwely y noson cyn y Nadolig dyma Nhad yn galw y plant ato, ac yn dweud wrthynt bod o wedi clywed nad oedd Sion Corn ddim yn dwad y noson honno, fod rhywbeth wedi digwydd iddo fo, ac felly doedd neb i roi ei hosan ar waelod y gwely. Aeth y plant i'w gwlau yn ddistaw bach. Mi fyddwn i yn cael aros i lawr nes oedd Mam a Nhad yn mynd i'r gwely am mai fi oedd yr hyna' adra ar y pryd.

Wel mi oedd fy Mam a'n Nhad yn ddigalon iawn, a phan aethom ni i fyny y grisiau dyna lle oedd y plant yn cysgu i gyd – Johni, Nel ac Annie, a Charles y babi yn ei grud. Mi oedd Nel wedi rhoi ei hosan i fyny, a Nhad a Mam yn edrych ar ei gilydd ddim yn gwybod beth i wneud. Mi oedd gan fy Nhad un geiniog ym mhoced ei drwsus, a mi lapiodd honno mewn darn bach o bapur a'i rhoi yn yr hosan..

'Gwyliwch y Llwynog'

Derbyniwch air o rybudd prydlon,
Gwerthfawr yw ei gael mewn pryd,
A gochelwch drwm golledion,
'N sicr, bydd y ffowls yn ddrud.

Perchnogion da pluog Gwaun Gynfi,
Hyn sy bwysig i'w gyhoeddi,
Yn enwedig tra'r da yn pesgi:
Bod llwynog yn crwydro'r ardal.
Gofalwch gau'r ieir o herwydd ni bydd iawndal,
Yn ngardd Pen Bont rhyw fore fe'i gwelwyd
Yn blasu asgwrn, i Sam, a adawyd,
Agorwyd y drws, meddwl i'r ci ei herio,
Dim byd tebyg, wnaeth y ci ddim cyffro.
Gan hynny gwyliwch ystrywiau Sion Blewyn Coch;
Tebygol bod ffau o gwmpas Cefn Coch.
"Gwell twrci ar blat na phlu wrth giat".

Dyddiadur y Mis

RHAGFYR

20, SUL: BETHEL: Naw Llith a Charol
DEINIOLEN: Gwasanaeth Nadolig yng nghapel Ebeneser 5.30 o'r gloch.
TANYCOED: Gwasanaeth Nadolig, plant yr Ysgol Sul 2.0 o'r gloch.
PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen, Gwasanaeth y Plant 10.30 o'r gloch. Naw Llith a Charol 4.30 o'r gloch.
LLANRUG: Capel Mawr, Y Gymdeithas Lenyddol – Gwasanaeth Carolau 5.30 o'r gloch.
CAEATHRO: Swper i blant y pentref yn dilyn y gwasanaeth.
21, LLUN: LLANRUG: Capel Mawr. Te Parti i blant yr Ysgol Sul 3.0 i 4.30 o'r gloch.
TANYCOED: Te Parti yr Ysgol Sul 3.30 o'r gloch.
PENISARWAUN: Te Parti plant Capel Bosra a'r Eglwys yn neuadd yr Eglwys 3.0 o'r gloch.
LLANBERIS: Y Lleng Brydeinig – Noson y Merched am 7.0 o'r gloch.
CAEATHRO: Canu Carolau o amgylch y goeden Nadolig gyda Seindorf Llanrug.
24, IAU: PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen. Cymun Bendigaid am 11.30 o'r gloch yr hwyr.
25, DYDD NADOLIG: DEINIOLEN: Yn Festri Disgwylfa, Cymun Sanctaidd am 10 o'r gloch y bore.
29, MAWRTH: PENISARWAUN: Yr Urdd yn ymweld â Theatr Gwynedd. Neuadd yr Eglwys, Gyrfa Chwist Boteli.
30, MERCHER: WAUNFAWR: Yr Urdd. Trip i'r Pantomeim.

1988

IONAWR

1, DYDD CALAN: Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
4, LLUN: YR ARDAL: Yr ysgolion yn ail agor.
LLANBERIS: Y CLINIC – Prawf Iechyd i Ddynion o 6 i 8 o'r gloch.
5, MAWRTH: PENISARWAUN: Yr Urdd am 6.0 o'r gloch.
LLANRUG: Pwyllgor Apêl yr Urdd yn yr Ysgol Gynradd am 7.0 o'r gloch.
6, MERCHER: WAUNFAWR: Yr Urdd.
7, IAU: BETHEL: Yr Urdd.
CWMYGLO: Clwb Ieuenctid.
8, GWENER: LLANBERIS: Te yr Henoed.
11, LLUN: PENISARWAUN: Pwyllgor Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys am 7.0 o'r gloch.
12, MAWRTH: LLANRUG: Merched y Wawr 'O'r môr i'r mynydd' gan Duncan Brown.
13, MERCHER: LLANRUG: Plaid Cymru 'Cynllunio yn Arfon' gan Dafydd Hughes.
19, MAWRTH: PONTRHYTHALLT: Y Gymdeithas Undebol, sgwrs gan Iolo Huws Roberts, Waunfawr.
20, MERCHER: PENISARWAUN: Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa.
22, GWENER: LLANBERIS: Te yr Henoed.
27, MERCHER: CAEATHRO: Clwb ger y Tân yn cyfarfod yn Nhŷ Mawr.
28, IAU: LLANRUG: Pwyllgor Apêl yr Urdd – Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd.

CHWEFROR

2, MAWRTH: PONTRHYTHALLT: Y Gymdeithas Undebol. Taith i Batagonia gyda Mrs Mary Vaughan Jones.
4, IAU: DEINIOLEN: Gwasanaeth dechrau'r flwyddyn yng nghapel Libanus am 7.0 o'r gloch.
LLANBERIS: NSPCC, Noson Gwin a Chaws yng Ngwesty Dolbadarn.

NID CEIR YN UNIG SYDD ANGEN M.O.T.!

Pa mor iach ydych chi?

Cynigir Prawf Iechyd i

DDYNION

YNG

NGHLINIC LLANBERIS

Y NOS LUN GYNTAF O BOB MIS

6 - 8 p.m.

DECHRAU IONAWR 4YDD 1988

DIM ANGEN APWYNTIAD

Yng ngofal

TOM JONES — Nyrs Gymuned

CERI PIERCE — Ymwelydd Iechyd

MWY O LYFRAU

Cribau Eryri
Rhiannon Davies Jones
240tt. £6.25 Clawr caled.
Nofel yn portreadu bywyd cyfnod o ddiwedd teyrnasiad Llywelyn Fawr, ei fab Dafydd a dechreuad cyfnod Llywelyn ein Llyw Olaf, ond nofel y gwelir ynddi hefyd arwyddocâd cyfoes.

Hon yw chweched nofel Rhiannon Davies Jones, awdures sydd wedi hen ennill ei phlwyf ymhlith ein prif nofelwyr hanes.

"Paid â Blino Dy Fforwards!"
Lynn Davies
96tt. £2.75. Clawr meddal.
Sgyrsiau doniol – ie, gwirioneddol ddoniol – am gymeriadau rygbi, y rygbi hwnnw sy'n rhan o fywyd bob dydd rhai o bentrefi Cymru, y rygbi sydd yn wir 'sbort' ac yn dwyn digonedd o hwyl a hiwmor yn ei sgîl. Mae gwledd o chwerthin yn eich aros yng nghwmni chwaraewyr fel Tom Bola, y prop a Dic Diesel, yr asgellwr, heb sôn am gartwnau cofiadwy Elwyn Ioan.

Dydi Pethau'n Gwella Dim!
Gwenno Hywyn
118tt. £1.75. Clawr meddal.
Nofel ddilyniant i 'Tydi Bywyd yn Boen', dyddiadur Delyth Haf, a dydi pethau'n gwella dim! Mae'n dymuno bod yn denau, ond maebwyta'n beth mor braf! Mae ei gwallt fel cynffonnau llygod mawr, ond diolch byth, mae *perm* i'w gael! Ond ... beth am Trystan Jones? Ai Delyth Haf sy'n dychmygu ei fod o'n llai golygus nag y bu? Efallai bod 'na ryw bishin arall ym mywyd Delyth Haf ...

Byrglars ac Ysgrifau Eraill
Dafydd Davies
64tt. £2.00. Clawr meddal.
Ysgrifau am gymeriadau a digwyddiadau diddorol, y rhan fwyaf wedi'u lleoli ym Mhenllyn, Meirionnydd. Ceir yma gyfuniad blasus o ysgafnder a dwyster, a thrwy'r cyfan hoelir ein diddordeb gan ddawn storïol yr awdur.

Brodor o'r Bala yw Dafydd Davies ond mae'n byw yng Nghaernarfon ers blynyddoedd bellach ac ef yw Ysgrifennydd Cymdeithas y Gwartheg Duon Cymreig.

Brychan Dir
Nansi Selwood
324tt. £4.75. Clawr meddal.
Canolbwynt y nofel yw hanes teulu Bodwigiad, ger Aberdâr, yn yr ail ganrif ar bymtheg, a cheir gan yr awdur ddisgrifiad byw o fywyd yr uchelwyr cefn-gwlad hyn a'r werin o'u cwmpas yn ystod y blynyddoedd cyn y Rhyfel Cartref.

Merch i sgweiar Bodwigiad yw Mary Prichard – a hi hefyd, fel yr unig blentyn, yw etifeddes yr ystâd. Wrth briodi â Richard Games, Aberbrân, caiff Mary ei thynnu i ganol bwrlwm bywyd y boneddigion yn Ne Cymru a'r tensiynau sy'n wynebu'r garfan honno yng nghysgod y rhyfel rhwng Siarl I a'r Senedd.

Hon yw nofel gyntaf Nansi Selwood ond yn bendant bydd cryn edrych ymlaen am fwy o nofelau gafaelgar fel hon ganddi.

APÊL I'R GOHEBWYR PENTREFI

PEIDIWCH os gwelwch yn dda ac anfon lluniau Nadoligaidd eu naws i'w cyhoeddi yn y rhifyn nesaf. Cofiwch y bydd bron yn fis Chwefror erbyn y daw'r rhifyn nesaf o'r "Eco" o'r Wasg.

CHWARAEON

RAS HWYL
CRONFA GOFAL CALON
GWASANAETH AMBIWLANS GWYNEDD

"Taniwch y gwn 'na, da chi, mae'n rhynllyd i sefyllian fan hyn."

Râs Hwyl? Mae hwyl y rhain wedi dechrau **cyn** *y râs mae'n amlwg!*

"Gwaith caled 'di llenwi'r holl systifficets 'ma — ond ella cawn ni lymad wedi gorffan."
Ken Jones a Trefor Edwards yn gyfrifol am yr amseru a'r cofnodi.



MUDIAD MERCHED LLANBERIS LADIES GROUP
RAS HWYL • FUN RUN
CRONFA GOFAL CALON • CARDIAC CARE FUND
GWASANAETH AMBIWLANS GWYNEDD
AMBULANCE SERVICE

D. W. Thomas
33 38

Y dystysgrif hardd a gyflwynwyd i bawb a gwblhaodd y cwrs.

"Yn cychwyn i chwilio amdanom ni roedd y bws — ond y ci 'nath ein dal yn ôl — wir yr!".

CYSTADLEUAETH NADOLIGAIDD

C	C	C	A	R	W	B	N	E	R	E	S	S
D	N	E	A	O	G	E	R	P	U	Y	H	N
D	A	I	L	M	U	T	O	A	A	D	C	U
Y	U	C	D	Y	E	H	C	R	D	Y	O	A
W	A	W	R	W	N	L	N	T	A	S	G	D
L	G	N	I	A	P	E	O	I	I	A	N	A
E	I	I	R	A	C	H	I	D	N	R	I	U
H	H	C	L	H	N	E	S	B	R	I	B	E
C	Y	M	R	O	E	M	R	T	U	E	O	L
U	I	Q	G	W	D	G	I	S	D	N	R	O
L	E	S	N	I	T	A	I	S	D	Y	T	G
P	A	R	S	E	L	I	N	O	A	D	U	B
S	N	O	I	H	T	E	O	D	N	R	H	G

ADDURNIADAU
BETHLEHEM
ROBINGOCH
DOETHION
CRACERS
CAMELOD
PARSELI
CAROLAU
TINSEL
SEREN
PARTI
CARW

ANRHEGION
GOLEUADAU
UCHELWYDD
SIONCORN
DYNEIRA
NADOLIG
CARDIAU
SIMNAI
PWDIN
CELYN
TWRCI
CNAU

LLONGYFARCHION I'R "DARANS"
CWPAN CANOLRADDOL CYMRU – TRWODD I'R ROWND GO-GYNDERFYNOL

Rhowch anrheg LLEOL y Nadolig hwn o weithdy crefftau

SIOP AMAN Stryd Fawr
DEINIOLEN *Ffôn: Llanberis 871210 a 871089*

Hefyd dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwil a'r teulu